## Cynnwys


1. Rhagymadrodd 2

2. Coronafeirws (COVID-19) 3

Asesu'r Effeithiau 4

Dyraniadau refeniw o'r cronfeydd canolog 6

Cynyddu'r adnoddau sydd eisoes ar gael 16

Ymyriadau eraill i ymateb i'r pandemig hwn a gyllidwyd yng Nghyllidebau'r Prif Grwpiau Gwriant 28

3. Newidiadau i Gyllideb Cymru ers Cyllideb Derfynol 2020-21 31

4. Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn 40

5. Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) 53

Atodiad 1 – Gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg am Effeithiau Anghymesur y Pandemig 55

Atodiad 2 – Cysoni rhwng Cyllidebau'r Portffolios yn Nhablau'r Camau Gweithredu a'r rhai yng Nghynnig y Gyllideb 58

Atodiad 3 – Geirfa 60


Dylid anfon unrhyw ymholiadau am gynnwys y ddogfen hon i:
wag-en@mailuk.custhelp.com

## 1. Rhagymadrodd

**1.1** Heddiw cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2020-21, yn unol â Rheol Sefydlog 20. Mae'r gyllideb atodol hon yn cynnig newidiadau i'r gyllideb derfynol ar gyfer 2020-21 fel y'i cymeradwywyd gan Senedd Cymru ('y Senedd'), a elwid cyn hyn yn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar 3 Mawrth 2020.

**1.2** Fel arfer, mae cyllidebau atodol yn ddigwyddiadau technegol yn bennaf sy'n unioni dyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac ohonynt a throsglwyddiadau o fewn y portffolios. Maent hefyd yn cynnwys addasiadau i gyllideb Cymru i adlewyrchu effaith digwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU.

**1.3** Mae pandemig y coronafeirws a'r lefelau digynsail o fuddsoddiad dilynol gan y Llywodraeth yn gofyn am ddull gweithredu gwahanol ar gyfer y gyllideb atodol gyntaf hon.

**1.4** Cyhoeddir y gyllideb hon yn gynharach nag yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae lefel y newidiadau, sy'n fwy na 10% o gyfanswm cyllideb Cymru, yn galw am ddisgrifiad mwy cynhwysfawr o'r newidiadau hynny a'r effaith y gallent ei chael.

**1.5** Prif ffocws y gyllideb atodol gyntaf hon yw effaith gyllidol pandemig y coronafeirws. Mae'r holl newidiadau yn y gyllideb hon sy'n ymwneud â phandemig y coronafeirws wedi'u nodi'n fanwl ym Mhennod 2.

**1.6** Mae'r gyllideb hefyd yn cydgrynhoi addasiadau eraill sy'n deillio o Gyllideb y DU ar gyfer 2020 a'r Prif Amcangyfrifon a'r mân addasiadau i gyllidebau Comisiwn y Senedd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r newidiadau hyn wedi'u crynhoi ym mhenodau 3 i 5.

**1.7** Mae'r ddogfen hon yn ategu'r 'Tablau Llinellau Gwariant y Gyllideb (BEL)' manwl sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

## 2. Coronafeirws (COVID-19)

**2.1** Mae'r Llywodraeth yn buddsoddi mwy nag erioed o'r blaen a hynny ar frys ac ar raddfa nas gwelwyd ers y rhyfel er mwyn ymateb yn barhaus i bandemig y coronafeirws . Yn ôl y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, gallai diffyg ariannol y DU fod yn £273bn eleni. Mae hynny 5 gwaith yn uwch na'r disgwyl gwta 2 fis yn ôl adeg Cyllideb y DU ar 11 Mawrth ac mae'n uwch o lawer na lefel uchaf y benthyca yn ystod yr argyfwng ariannol rhyw ddegawd yn ôl.

**2.2** Daw hyn oll gyda chyllid cyhoeddus yn dal i ddelio ag effeithiau dirwasgiad 2008, effaith polisi cyni ariannol Llywodraeth y DU a'r ansicrwydd parhaus mewn perthynas â gadael yr Undeb Ewropeaidd.

**2.3** Ers cymeradwyo cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 ar 3 Mawrth, mae'r gyllideb wedi codi dros 10%. Er mwyn cefnogi economi Cymru a sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus wedi'u harfogi i ddelio â phandemig y coronafeirws, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu'n ddiymdroi i ddyrannu'r cyllid hwn. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ailgyfeirio cyllidebau sydd eisoes ar gael ac ad-drefnu cyllid Ewropeaidd.

**2.4** Yn y Gyllideb hon, mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu dros £2.4bn i ystod o ymyriadau i ymateb i'r argyfwng presennol ac i liniaru ei effeithiau. Daw'r cyllid o dair prif ffynhonnell:

- **Cyllid canlyniadol COVID-19** – Ers Cyllideb y DU, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ystod o fesurau i ymateb i'r argyfwng COVID-19, ac mae goblygiadau ariannol sylweddol i nifer ohonynt. Er bod y mwyafrif helaeth o'r mesurau hyn wedi bod ar gyfer y DU i gyd, mae nifer wedi bod mewn meysydd datganoledig ac felly maent wedi cynhyrchu cyllid canlyniadol. Mae £1.856bn o gyllid canlyniadol wedi cael ei gynnwys ym Mhrif Amcanestyniadau'r DU ac mae hynny wedi cael ei adlewyrchu yn y Gyllideb hon. Ni

fydd unrhyw gyllid canlyniadol ychwanegol yn cael ei gadarnhau tan Amcangyfrif Atodol y DU yn nes ymlaen yn ystod y flwyddyn a bydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn ein hail gyllideb atodol.

- **Cyllid a ganfuwyd yn nyraniadau presennol y Prif Grwpiau Gwariant** – Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu cyllidebau adrannau er mwyn cynyddu faint gallwn ei ailgyfeirio mewn cyllidebau sydd eisoes ar gael er mwyn ymateb i'r argyfwng. O ganlyniad, canfuwyd £256m o refeniw ac mae hwn wedi cael ei ddychwelyd i'r cronfeydd.
  Mae rhagor o fanylion yn adrannau 2.45 - 2.58

- **Ailgyfeirio cyllid Ewropeaidd** - Yn dilyn cynigion a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd i ddarparu hyblygrwydd nas gwelwyd o'r blaen i ddefnyddio cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop ac ERDF fel rhan o'r camau mae'r Undeb Ewropeaidd yn eu cymryd i sicrhau bod arian ar gael i fynd i'r afael ag effeithiau'r pandemig. Ar hyn o bryd, tybir y gellid rhyddhau hyd at £245m at y diben hwn.

**2.5** Ochr yn ochr â'r dyraniadau o'r cronfeydd canolog, mae Gweinidogion portffolio hefyd wedi cymryd camau i ailgyfeirio cyllidebau sydd eisoes yn bodoli mewn llinellau gwariant yn y gyllideb er mwyn ymateb i'r pandemig hwn. Mae rhagor o fanylion yn adran 2.59.

## Asesu'r Effeithiau

**2.6** Yn y cyd-destun digynsail hwn, rydym yn dal i gael ein harwain gan bum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r camau rydym wedi eu cymryd wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar atal niwed i'r mwyaf difreintiedig ac atal effeithiau (negyddol) ehangach ar bobl Cymru ac ar yr economi ehangach. Rydym wedi cydweithio â gwasanaethau cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn ddi-oed i ddatblygu ac i ddarparu ymyriadau er mwyn ymateb i'r pandemig hwn.

Wrth gydbwyso anghenion tymor byr a thymor hir, rydym hefyd wedi asesu effaith ailgyfeirio cyllidebau sydd eisoes yn bodoli.

**2.7** Yn yr argyfwng hwn, rhoddir blaenoriaeth uchel i ganolbwyntio ar y rheini sydd fwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas. Mae hyn yn cynnwys y plant a'r bobl ifanc hynny y mae eu hamgylchiadau teuluol yn golygu mai nhw fydd yn gweld yr effaith fwyaf niweidiol o ganlyniad i beidio â mynd i'r ysgol. Rydym hefyd yn cydnabod bod y cyfyngiadau symud wedi bod yn anoddach o lawer i'r rheini sy'n byw mewn tai anfoddhaol neu orlawn, y rheini sy'n dioddef problemau iechyd meddwl neu sydd wedi peidio â gofyn am help ar gyfer salwch ar wahân i COVID oherwydd bod arnynt ofn, y rheini sydd mewn perthynas lle maent yn cael eu cam-drin neu'r rheini sy'n hŷn ac yn byw ar eu pen eu hunain.

**2.8** Mae ein hymateb i'r pandemig coronafeirws a'r cyllid ychwanegol yr ydym wedi ei neilltuo yn fwy nag ymateb disymwth i'r niwed uniongyrchol i iechyd a achoswyd gan y pandemig ei hun. Fe'i cynlluniwyd i liniaru'r effeithiau ehangach a achoswyd gan y mesurau cymdeithasol ac economaidd, nas gwelwyd mo'u tebyg o'r blaen, a gymerwyd gennym fel llywodraeth i ddiogelu bywydau pobl a lleihau lledaeniad y feirws. Mae hyn yn cydnabod y ffaith y gall pobl Cymru gael niwed sy'n gysylltiedig â COVID-19 mewn pedair prif ffordd.

- Niwed uniongyrchol o COVID-19;
- Niwed anuniongyrchol os yw gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu llethu oherwydd cynnydd mawr sydyn yn y galw gan gleifion sydd â COVID-19 ar ysbytai, cyfleusterau gofal critigol a gwasanaethau allweddol eraill gan ragori ar gapasiti'r GIG;
- Niwed anuniongyrchol o COVID-19, er enghraifft os nad yw unigolion yn ceisio sylw meddygol yn gynnar am eu salwch ac mae eu cyflwr yn gwaethygu, neu'n fwy eang o'r newidiadau angenrheidiol i gyflenwi gwasanaethau'r GIG a wnaed yn ystod y pandemig yng Nghymru i roi'r gorau dros dro i gynnal gweithgarwch nad yw'n hanfodol;

- Niwed economaidd-gymdeithasol a niwed cymdeithasol eraill anuniongyrchol yn deillio o ganlyniadau'r cyfyngiadau ar symud (fel yr effaith economaidd ar rai grwpiau penodol oherwydd nad ydynt yn gallu gweithio).

**2.9** Wrth ymateb i'r argyfwng hwn, rydym yn credu ein bod wedi cael y cydbwysedd yn iawn rhwng darparu cymorth yn gyflym i'r rheini y mae arnynt ei angen fwyaf a bod yn gymesur yn ein hasesiadau ynghylch effeithiau ein penderfyniadau. Rydym yn monitro'r wybodaeth sy'n dod i'r amlwg yn ofalus er mwyn dod o hyd i unrhyw effeithiau anghymesur ac er mwyn targedu ein hymatebion a chymryd camau i sicrhau ein bod yn monitro ac yn addasu ein hymatebion yn ôl yr angen.

**2.10** Rydym hefyd yn sicrhau bod yr effeithiau cadarnhaol sy'n dod i'r amlwg yn sgil y pandemig, er enghraifft datblygu modelau newydd o ddarparu gwasanaethau a'r effeithiau cadarnhaol ar yr amgylchedd, yn cael eu cofnodi a'u hystyried wrth i ni symud y tu hwnt i'r effeithiau a welwn nawr ac ymlaen tuag at adferiad. Mae hyn yn cynnwys ffyrdd o deithio ac o weithio sy'n fwy cynaliadwy, hyblygrwydd wrth ddefnyddio TGCh mewn busnesau, gwasanaethau ac addysg, a mwy o bwyslais ar weithredu gwirfoddol a chymunedol a'r effeithiau cadarnhaol ar fioamrywiaeth ac ar ansawdd aer.

**2.11** Mae Atodiad 1 yn cynnwys trosolwg o'r dystiolaeth sydd wedi dod i'r amlwg am effeithiau anghymesur y pandemig sy'n helpu i siapio ein hymyriadau a'n syniadau ar gyfer y dyfodol.

### Dyraniadau refeniw o'r cronfeydd canolog

**2.12** Mae'r Gyllideb hon yn dyrannu £2.46bn i ymateb i'n hymdrechion COVID-19, sy'n canolbwyntio ar bedwar prif biler:

## Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus - £763m

**2.13** Ein prif flaenoriaeth fu sicrhau bod ein system gofal iechyd yn gallu ymdopi â'r straen hollol newydd sydd arni oherwydd y pandemig. Rydym wedi darparu cyllid ychwanegol i gynyddu ein capasiti arferol a rhoi'r hyn sydd ei angen arno i'r GIG. Mae **£166m** wedi cael ei roi i agor ysbytai maes ar draws Cymru. Mae'r rhain yn rhan hollbwysig o'n strategaeth i ymateb i COVID-19. Cafodd yr ysbytai maes eu hadeiladu'n gyflym a byddant yn golygu ein bod yn gallu gofalu am bawb sydd angen hynny gan sicrhau bod y rheini y mae angen eu trin ar frys oherwydd salwch arall yn gallu parhau i gael eu trin mewn ysbytai.

**2.14** Yn ogystal â´r ysbytai maes, mae cyllid wedi cael ei ddarparu i ddefnyddio cyfleusterau y tu allan i ysbytai arferol y GIG. Dyrannwyd **£30m** i ddefnyddio'r chwe ysbyty preifat sydd yng Nghymru, a dyrannwyd **£6m** arall i ddarparu capasiti ychwanegol ar gyfer cleifion mewnol iechyd meddwl. Mae agor ysbytai maes a defnyddio gwelyau mewn cyfleusterau y tu allan i ysbytai arferol y GIG wedi golygu ein bod nawr yn gallu cynyddu ein capasiti arferol yn sylweddol ar gyfer pobl y mae angen rhyw fath o ofal ysbyty arnynt, ar yr un pryd â chadw'r potensial i allu ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y nifer sy'n cael eu heintio â'r coronafeirws yn y dyfodol. Rydym yn ymgysylltu â byrddau iechyd a mudiadau trydydd sector bob wythnos i fonitro'r ddarpariaeth iechyd meddwl.

**2.15** Yn ogystal â chynyddu capasiti ysbytai, rydym hefyd wedi gorfod cynyddu'r adnoddau staff sydd yn y GIG ar frys er mwyn ymdopi â'r galw ychwanegol. Rydym wedi gweithio mor gyflym â phosibl i ddod o hyd i staff ychwanegol. Mae **£91m** wedi cael ei ddarparu i gynyddu'r cyfraniad y gall myfyrwyr gofal iechyd a'r rheini sy'n dychwelyd i wasanaeth ei wneud. Bydd y capasiti staffio ychwanegol hwn yn helpu i liniaru yn erbyn y niferoedd uchel o staff na fyddant yn gallu gweithio ac yn darparu cefnogaeth hollbwysig wrth i ni gynyddu ein capasiti ar

draws y GIG yn gyflym. Rydym yn monitro'r gwaith hwn yn ofalus gan ystyried y newidiadau yn yr anghenion oherwydd y pandemig.

2.16 Rydym hefyd wedi dyrannu **£100m** i ddarparu'r Cyfarpar Diogelu Personol sydd ei angen ar ein staff iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn iddynt allu gwneud eu gwaith yn ddiogel, iddynt eu hunain ac i'w cleifion a **£21.3m** arall i gefnogi caffael cyfarpar a defnyddiau traul ychwanegol i'r GIG.

2.17 Rydym wedi dyrannu **£1m** i ehangu'r cynllun cymorth iechyd meddwl ar gyfer meddygon i bob gweithiwr gofal iechyd sydd ar y rheng flaen yng Nghymru er mwyn sicrhau bod y rheini sydd ar y rheng flaen yn gallu cael gafael ar y gefnogaeth maen nhw'n ei haeddu.

2.18 Rydym hefyd wedi dyrannu **£3.5m** ar gyfer y Gronfa Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl er mwyn i Fyrddau Iechyd allu ymateb yn hyblyg i'r cynnydd yn y galw am wasanaethau iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys cryfhau cymorth y rheng flaen fel mynediad at ddarpariaeth y tu allan i oriau a mwy o fynediad at ymyriadau seicolegol.

2.19 Mae **£30m** hefyd wedi cael ei ddyrannu i sicrhau bod gofal plant ar gael am ddim i blant gweithwyr hanfodol a phlant agored i niwed 0-5 oed. Mae hyn yn cydnabod rôl hanfodol rhieni sy'n gwneud gwaith hanfodol i ymateb Cymru i'r coronafeirws, ac yn cefnogi'r plant mwyaf agored i niwed yng Nghymru a'u teuluoedd. Mae asesiad o effaith y camau hyn a gwerthusiad annibynnol o'r ddarpariaeth gyfredol yn cael eu cynnal er mwyn monitro effeithiau'r cynllun hwn.

2.20 Mae profion yn rhan hollbwysig o'n cynllun i leihau'r niwed o COVID-19 ac er mwyn helpu'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol i ddychwelyd i'w bywydau bob dydd arferol - mae **£57m** wedi cael ei ddyrannu i gefnogi strategaeth 'Profi, Olrhain, Diogelu' Llywodraeth Cymru.

**2.21** Rydym hefyd yn cydnabod bod angen diogelu'r mwyaf difreintiedig yn ein cymunedau ar frys. Rydym wedi dyrannu **£2.3m** i sefydlu system danfon presgripsiynau ar draws Cymru i'r boblogaeth sy'n 'gwarchod' eu hunain, er mwyn sicrhau eu bod yn cael y meddyginiaethau sydd eu hangen arnynt a hynny pan fydd eu hangen arnynt..

**2.22** Mae hosbisau a gwasanaethau gofal diwedd oes sy'n cael eu darparu gan y sector gwirfoddol hefyd yn rhan bwysig o'n hagwedd gymunedol a thosturiol at ofal diwedd oes. Daw tua dwy ran o dair o incwm gwasanaethau hosbisau Cymru o weithgareddau codi arian elusennol ac maent wedi gweld gostyngiad yn eu cyllid yn ystod yr achosion o'r coronafeirws. Rydym wedi dyrannu **£6.3m** er mwyn iddynt allu parhau i ddarparu gwasanaethau hollbwysig a gofal o ansawdd uchel ar draws Cymru.

**2.23** Mae **£9.8m** arall wedi cael ei ddyrannu i gefnogi amrywiaeth o gamau ychwanegol fel rhan o'r ymateb i COVID-19, gan gynnwys Gwasanaethau Meddygon Teulu gwell dros Ŵyl Banc y Pasg, mwy o gefnogaeth i'r rheini sy'n dioddef pryder a/neu iselder a chyllid Camddefnyddio Sylweddau ychwanegol i gefnogi presgripsiynau Therapi Amnewidion Opioid amgen ledled Cymru.

**2.24** Mae gofal cymdeithasol hefyd ar y rheng flaen o ran cefnogi pobl yn ein cymunedau i ddelio ag effeithiau uniongyrchol y pandemig a'r gofynion ychwanegol sydd ar ofal cymdeithasol. Bob dydd mae tua 65,000 aelod o staff yn y gweithlu gofal cymdeithasol yn darparu gofal hanfodol, a hynny mewn amgylchiadau anodd iawn yn aml.

**2.25** Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn unigolion medrus sy'n gorfod derbyn mwy o risg a mwy o gyfrifoldeb. I gydnabod y gwaith caled hwn, rydym hefyd wedi dyrannu hyd at **£40m** i dalu £500 i bob gweithiwr cartref gofal a phob gweithiwr gofal cartref sy'n darparu gofal personol ar draws Cymru. Rydym hefyd yn cydnabod y gwasanaeth hanfodol

sy'n cael ei ddarparu gan y gweithwyr hyn sydd ar gyflogau isel. Mae bron i 80% o'r gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru yn fenywod.

**2.26** Rydym hefyd wedi dyrannu **£10m** arall i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol Cymru i helpu i gael y rheini sydd wedi gwella o COVID-19 gartref yn gyflymach drwy becynnau gofal cartref newydd a gwell. Bydd y cyllid hwn hefyd yn helpu i ddarparu gwasanaethau cymunedol hanfodol sy'n cefnogi'r ymateb i COVID-19 er mwyn helpu pobl i aros gartref yn ddiogel.

**2.27** Er gwaethaf y pandemig mae ein hawdurdodau lleol yn parhau i ddarparu gofal cymdeithasol, addysg a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol eraill ac yn chwarae eu rhan drwy weithio ar fyrder i ddiogelu eu gwasanaethau lleol hanfodol yn y gymuned. O ganlyniad i'r camau y mae'n rhaid i ni eu cymryd i ddiogelu iechyd y cyhoedd mae cynnydd anochel yng nghostau awdurdodau lleol a gostyngiad anochel yn eu hincwm.

**2.28** Rydym wedi darparu **£188.5m** drwy Gronfa Galedi i Awdurdodau Lleol i gydnabod eu rôl ehangach yn y gymuned yn ystod argyfwng. Mae hyn yn cynnwys:

- **£40m** i gefnogi'r costau ychwanegol sydd nawr yn wynebu gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion, gan gynnwys costau uwch Cyfarpar Diogelu Personol sylfaenol, bwyd, costau staffio a TGCh.
- **£40m** i ddarparu Prydau Ysgol Am Ddim i gefnogi plant cymwys. Roeddem yn cydnabod y gallai cau ysgolion gael effaith niweidiol ar deuluoedd difreintiedig sy'n dibynnu ar y prydau ysgol am ddim a gaiff eu plant, gan gynnwys y cynnydd yn nifer y plant sy'n debygol o fod yn gymwys o ganlyniad i'r pandemig hwn. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i warantu cyllid parhaus i blant barhau i gael prydau ysgol am ddim nes i'r ysgolion ailagor neu tan ddiwedd mis Awst.

- **£10m** i helpu awdurdodau lleol i weithredu'n uniongyrchol ac yn ddi-oed er mwyn diogelu yn erbyn digartrefedd a chefnogi pobl sy'n cysgu allan yn ystod pandemig y coronafeirws. Ac ystyried natur fregus pobl sy'n cysgu allan a'r rheini sydd mewn llety dros dro annigonol, rydym wedi canolbwyntio'n gyntaf ar y math mwyaf difrifol hwn o ddigartrefedd a sicrhau na fydd neb yn cael ei adael heb lety addas a chefnogaeth yn ystod y pandemig. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r awdurdodau sy'n gweld effaith hyn waethaf ac rydym yn monitro sut caiff cyllid ei ddefnyddio drwy fonitro data sy'n cael ei gyflwyno gan awdurdodau lleol bob wythnos ynghylch y gefnogaeth sy'n cael ei darparu.

- **£7m** i gefnogi Awdurdodau Lleol i wneud dewisiadau anodd ond angenrheidiol i greu cyfleusterau dros dro i ddelio â'r cynnydd trychinebus yn nifer y marwolaethau yn ystod y pandemig. Bydd y cyllid hwn yn sicrhau bod Cymru wedi paratoi'n ddigonol a bod y rheini sy'n colli eu bywydau yn cael eu trin ag urddas a pharch, ar yr un pryd â sicrhau ein bod yn parhau i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Wrth ddarparu'r gefnogaeth hon rydym yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid ehangach cymaint â phosibl er mwyn diwallu ystyriaethau moesol, moesegol, diwylliannol a ffydd yn ogystal â diwallu dymuniadau personol anwyliaid.

- **£78m** i gefnogi llywodraeth leol oherwydd colli incwm o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig, ac er mwyn helpu i gynnal cydnerthedd ariannol y sector a lliniaru yn erbyn toriadau mewn gwasanaethau nawr ac yn y tymor hwy.

### Cefnogi'r Economi - £1,608m

**2.29** Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Banc Lloegr wedi cydnabod ei bod bron yn hollol bendant y bydd yr epidemig a'r mesurau angenrheidiol a roddwyd ar waith i'w reoli, yn arwain at ostyngiad sydyn mewn gweithgarwch economaidd i raddau nas gwelwyd cyn cof. Rydym

yn gwybod bod ar fusnesau angen cymorth gan lywodraeth yn ystod y cyfnod heriol iawn hwn ac mae angen y cymorth hwnnw arnynt ar frys.

**2.30** Mae pob rhan o economi Cymru yn gweld effaith y pandemig. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod un rhan o bump o fusnesau wedi cau dros dro erbyn dechrau mis Mai. Mae arolwg sydyn a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif bod 66% o fusnesau Cymru wedi gweld gostyngiad yn eu trosiant. Dyma'r gyfran uchaf o holl wledydd y DU. Mae 80% o fusnesau Cymru hefyd wedi gwneud cais i Gynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws Llywodraeth y DU.

**2.31** Rydym wedi ymrwymo i wneud popeth gallwn gyda'r pwerau a'r adnoddau sydd gennym i gefnogi cwmnïau ac i helpu i weld ein heconomi yn dychwelyd i'r lefelau twf a welwyd cyn y pandemig. Roeddem wedi gweithredu'n gynnar i gefnogi busnesau yng Nghymru gan ategu'r ystod eang o fesurau a roddwyd ar waith gan Lywodraeth y DU ar draws y pedair gwlad i ddiogelu busnesau a chyflogaeth o ganlyniad i'r pandemig. Rydym wedi cyhoeddi pecyn heb ei debyg o fesurau sy'n werth **£1.7bn** (gan gynnwys £100m o gyfalaf) i gefnogi'r economi ac i ddiogelu swyddi – mae hyn yn gyfystyr â 2.7% o werth ychwanegol gros Cymru yn 2019-20.

**2.32** Rydym wedi sefydlu Cronfa Cadernid Economaidd gwerth **£500m** (sy'n cynnwys £400m o gyllid refeniw a £100m o gyllid cyfalaf wedi'i ailgyfeirio ym Manc Datblygu Cymru) sy'n cynnig cymorth hollbwysig i fusnesau, yn enwedig y busnesau micro, bach a chanolig eu maint hynny sydd wrth galon ein heconomi, ynghyd ag elusennau a mentrau cymdeithasol. Mae'r cymorth hwn yn fwy na'r hyn sydd ar gael i gwmnïau yn Lloegr.

**2.33** Gwta 8 wythnos ers lansio'r Gronfa mae eisoes wedi darparu benthyciadau gan y Banc Datblygu sydd werth dros £87m i dros 1,300 o fusnesau, a grantiau sydd werth bron i £100m i dros 6,000 o fusnesau, elusennau a mentrau cymdeithasol. Mae'r gwaith o ddarparu'r gronfa

hon yn cael ei fonitro’n agos er mwyn asesu effaith y gronfa ar sectorau, rhanbarthau a mathau o fusnesau Cymru.

2.34 Rydym hefyd wedi darparu **dros £1bn** y mae llywodraeth leol yn ei ddosbarthu ar ein rhan drwy ryddhad ardrethi annomestig a grantiau cysylltiedig i fusnesau yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch. Hyd yn hyn mae awdurdodau lleol wedi rhoi dros 50,700 o grantiau ardrethi busnes sydd gyda'i gilydd yn werth dros £625m. Mae hyn yn cynnwys:

- Bydd pob busnes sy’n gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yn cael grant o £10k, i gydnabod y rhan hollbwysig maen nhw’n ei chwarae yn ein heconomi, gyda hyd at **£636m** o gyllid ar gael.

- Rydym hefyd wedi darparu **£26m** ychwanegol i ehangu’r cynllun i elusennau a chyrff dielw sy’n defnyddio eiddo sydd â gwerth ardrethol o £12,000 neu lai. Mae hyn yn cynnwys siopau elusennol, safleoedd chwaraeon a chanolfannau cymunedol nad oeddent cyn hyn yn gymwys i gael y math hwn o gymorth.

- Ochr yn ochr â’r cymorth hwn, rydym wedi darparu **£214m** ar gyfer busnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch sydd â gwerth ardrethol rhwng £12,001 a £51,000 i gael grant o £25k.

- Rydym wedi ymrwymo **£332m** ychwanegol ar gyfer rhyddhad ardrethi annomestig i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch sydd â gwerth ardrethol hyd at £500,000 ar gyfer 2020-21. Mae hyn yn cydnabod effeithiau pwysig y sectorau hyn, yn enwedig yng Nghymru wledig, ac mae'r effeithiau cadarnhaol ehangach ar lesiant yn cynnwys busnesau sy’n bwysig yn ddiwylliannol.

2.35 Rydym yn llawn gydnabod natur ddigyffelyb yr her sy’n wynebu ein heconomi a’r swyddi mae’n eu darparu a byddwn yn parhau i fonitro

datblygiadau yn natur y pandemig wrth ystyried rhyddhau unrhyw gyllid pellach.

### Y Sector Gwirfoddol a Chymunedau - £50m

**2.36** Rydym hefyd wedi gweithredu ar fyrder i ymateb i'r effaith anghymesur sy’n dod i’r amlwg ac yn datblygu o ganlyniad i’r pandemig ar rai o’r mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

**2.37** Mae tua 125,500 o bobl yng Nghymru yn y boblogaeth sy’n gwarchod eu hunain – 4% o’r holl boblogaeth - oherwydd bod ganddynt gyflyrau meddygol sy’n golygu eu bod yn eithriadol o agored i niwed oherwydd COVID-19. Er mwyn diogelu unigolion sy’n gwarchod eu hunain, rydym wedi dyrannu **£15m** i ddechrau ar gyfer cynllun danfon bwyd yn uniongyrchol. Mae'r cynllun yn danfon blychau o fwyd a hanfodion am ddim bob wythnos i’r rheini sy’n gwarchod eu hunain ac nad ydynt yn gallu cael gafael ar gyflenwadau angenrheidiol fel arall.

**2.38** Os yw pobl a theuluoedd yn wynebu caledi ariannol annisgwyl oherwydd y coronafeirws, mae ein Cronfa Cymorth Dewisol yn gallu darparu taliadau argyfwng brys i’r rheini sy’n methu talu am gostau bwyd ac ynni. Ers dechrau mis Mawrth mae teuluoedd ledled Cymru wedi bod yn troi at y gronfa am gymorth ychwanegol i’w helpu gyda rhai o’r pwysau ariannol a’r heriau sy’n eu hwynebu. Mae Taliadau Cymorth mewn Argyfwng o’r gronfa wedi dyblu dros y cyfnod hwn - yn ystod y pedair wythnos gyntaf yn unig roedd hawliadau a oedd yn ymwneud â COVID-19 wedi cynyddu i dros 12,000 o daliadau a oedd yn costio £750,000.

**2.39** Rydym wedi ymateb i’r cynnydd hwn yn y galw drwy ddarparu **£11.2m** ychwanegol i helpu i gefnogi’r gofynion cynyddol sydd ar y gronfa ac rydym yn defnyddio mwy o hyblygrwydd a disgresiwn o ran niferoedd ac amlder y Taliadau Cymorth mewn Argyfwng. Rydym yn monitro’r galw’n

ddyddiol i sicrhau bod y gronfa'n cael ei thargedu at y rheini sy'n dioddef waethaf oherwydd effeithiau COVID-19.

**2.40** Ac ystyried yr wybodaeth sy'n dod i'r amlwg am effaith y pandemig a'r tebygolrwydd o fwy o anghydraddoldebau, yn enwedig i unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig, mae mwy o alw nag erioed am y rhan bwysig mae elusennau a'r Trydydd Sector yn ei chwarae i gefnogi ac i ddiogelu ein cymunedau. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau cyngor, cefnogaeth gydag iechyd meddwl, llinellau cymorth atal hunanladdiad, cefnogaeth i ddioddefwyr cam-drin domestig, cefnogaeth i'r henoed, banciau bwyd, elusennau canser, elusennau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, elusennau bach sydd wedi'u sefydlu i helpu pobl sy'n dioddef o salwch penodol, a llawer iawn mwy. Rydym hefyd yn cydnabod natur ddigynsail effaith y pandemig ar eu cyllid ac ar y galw am eu gwasanaethau.

**2.41** Rydym hefyd yn cydnabod y rhan bwysig sy'n cael ei chwarae gan wirfoddolwyr. Mae data gan Gwirfoddoli Cymru yn dangos bod 17,500 o bobl wedi cofrestru fel gwirfoddolwyr yng Nghymru ers dechrau mis Mawrth, gyda 7,000 o wirfoddolwyr yn ymateb i geisiadau sy'n ymwneud â COVID-19.

**2.42** Er mwyn sicrhau eu bod yn gallu parhau â'u gwaith hanfodol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cronfa Ymateb COVID-19 ar gyfer y Trydydd Sector gwerth **£24m** i gefnogi sector gwirfoddol Cymru. Bydd y gronfa hon yn helpu elusennau a mudiadau yn y Trydydd Sector yn ariannol drwy'r argyfwng hwn, yn helpu rhagor o bobl i wirfoddoli ac yn cryfhau'r seilwaith Trydydd Sector hanfodol. Rydym yn monitro effeithiau'r pecyn hwn o gymorth yn weithredol ac rydym wedi sefydlu mecanweithiau ffurfiol ac anffurfiol i ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod y cymorth yn cyrraedd cynifer â phosibl o fudiadau.

### Trafnidiaeth - £40m

**2.43** Er bod aros gartref, diogelu'r GIG ac achub bywydau yn fesur iechyd y cyhoedd angenrheidiol a phwysig iawn, rydym yn cydnabod effaith hyn ar drafnidiaeth gyhoeddus. Er enghraifft, mae cwmnïau bysiau wedi gweld niferoedd eu teithwyr yn disgyn hyd at 90%. Rydym y gweithredu i sicrhau y bydd ein sector trafnidiaeth gyhoeddus yn gallu parhau i wasanaethu ein cymunedau ar hyd a lled Cymru.

**2.44** Yn ogystal ag ailgyfeirio gwariant mewn cyllidebau cyfredol i ddelio ag amgylchedd tra gwahanol a heriol trafnidiaeth gyhoeddus, rydym wedi darparu **£40m** i helpu i barhau i weithredu ac i gynnal a chadw gwasanaethau trenau, a galluogi gweithwyr allweddol i deithio am ddim ar drenau Trafnidiaeth Cymru.

### Cynyddu'r adnoddau sydd eisoes ar gael

**2.45** Er mwyn talu am y cymorth i economi Cymru ac i sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn gallu delio â phandemig y coronafeirws, mae Gweinidogion hefyd wedi ailddyrannu neu ailgyfeirio cyllid yn eu cyllidebau er mwyn ymateb i'r pandemig hwn. O ganlyniad, mae £256m wedi cael ei ddychwelyd i'r gronfa ganolog er mwyn ei ailddefnyddio.

**2.46** Mae hyn wedi golygu dewisiadau anodd i asesu beth fyddai modd ei ad-drefnu er mwyn mynd i'r afael â her ariannol y pandemig. Er mwyn lleihau effeithiau'r ymarfer ailflaenoriaethu hwn, rydym wedi ceisio diogelu:

- Gwariant sy'n diogelu bywydau dinasyddion
- Meysydd lle mae gennym ymrwymiad cyfreithiol neu statudol i gyflawni
- Meysydd blaenoriaeth y Llywodraeth.

**2.47** Rydym hefyd wedi ceisio lleihau'r effaith drwy ganfod lle nad oes modd defnyddio cyllid at y dibenion gwreiddiol neu ar gyfer gweithgareddau

newydd a oedd wedi cael eu cynllunio ar gyfer 2020-21 ond nad oeddent wedi dechrau eto ac y gellid eu gohirio.

**2.48** Oherwydd y ffordd mae'r pandemig yn datblygu rydym hefyd yn parhau i fonitro effeithiau ein penderfyniadau'n agos ynghyd ag effeithiau ehangach y pandemig yng Nghymru i asesu pa gamau eraill y gallai fod angen i ni eu cymryd.

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | COVID-19 Cyfraniadau £000oedd |
|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | (113,889) |
| Tai a Llywodraeth Leol | (5,000) |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | (50,000) |
| Addysg | (46,552) |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | (15,414) |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | (24,000) |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | (1,391) |
| **CYFANSWM** | **(256,246)** |

**2.49** Mae'r adran isod yn rhoi dadansoddiad o'r cyllid sydd wedi cael ei ailgyfeirio sydd dros £250k ym mhob Prif Grŵp Gwariant ac sydd wedi'i ddychwelyd i'r gronfa ganolog.

### Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - £114m

**2.50** Mae cyllid wedi cael ei ailgyfeirio mewn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn rhoi cymorth uniongyrchol i'r camau sydd eu hangen i ymateb i'r pandemig COVID-19. Dyma'r prif feysydd lle mae cyllid wedi cael ei ailgyfeirio:

- **Y Gronfa Perfformiad** (£50m) – mewn perthynas â chymorth i GIG Cymru i fynd i'r afael ag amseroedd aros. Fodd bynnag, pan roedd

COVID-19 ar ei anterth cafodd gweithgareddau arferol eu lleihau oherwydd gofynion capasiti yn y sector acíwt.

- **Y Gronfa Trawsnewid** (£11m) – Rhewi prosiectau Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol. Mae'n debygol y bydd effaith gyffredinol ar effaith drawsnewid a chynnydd o ganlyniad i'r pandemig, ond bydd gwaith monitro rheolaidd yn cael ei wneud a bydd gwerthusiad y Gronfa Trawsnewid yn cael ei addasu.

- **Y Gronfa Gwella Iechyd Meddwl** (£7m) – Mewn perthynas â gweithgareddau a oedd wedi cael eu cynllunio ond heb eu hymrwymo i wella gwasanaethau ond mae'r argyfwng presennol wedi effeithio arnynt.

- **Y Cynnig Gofal Plant** (£30m) – Cafodd Cynnig Gofal Plant Cymru ei gau i blant a oedd fod i ddechrau ar ôl gwyliau'r Pasg. Mae hyn yn golygu bod modd ailgyfeirio cyllid i gefnogi gweithwyr allweddol gyda'u costau gofal plant a chefnogi plant agored i niwed yn ystod y pandemig COVID-19.

- **Cyllid Dechrau'n Deg Newydd** (£3.5m) – Roedd Cyllideb Derfynol 2020-21 yn cynnwys cyllid ychwanegol a oedd wedi cael ei gynllunio ar gyfer dull gweithredu Dechrau'n Deg i gefnogi cynlluniau braenaru'r Blynyddoedd Cyntaf ond nid oedd hyn wedi cael ei ymrwymo eto.

- **Rhaglen Drawsnewid a Pwysau Iach Cymru** (£5m) – Mewn perthynas ag oedi yn y gwariant a oedd wedi cael ei gynllunio o ganlyniad i'r pandemig.

- Mae gweddill y cyllid sydd wedi cael ei ailgyfeirio yn cynnwys symiau llai sydd wedi cael eu dyrannu i weithgareddau dros nifer o feysydd gwahanol.

### Tai a Llywodraeth Leol - £5m

**2.51** Nid ydym wedi canfod unrhyw effeithiau anghymesur ar grwpiau a warchodir o ganlyniad i ailgyfeirio cyllid. Mae unrhyw effeithiau sydd wedi cael eu canfod wedi cael eu lleihau pan fo'n bosibl a bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu wrth i'r pandemig ddatblygu.

- **Trawsnewid a Deddfwriaeth** (£2.8m) – Cymorth ar gyfer trawsnewid llywodraeth leol.  Y prif feysydd yr effeithir arnynt ydy trawsnewid cynghorau cymuned, rhaglen cymorth gwella Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a datblygu rhaglen datgarboneiddio.
- **Academi Wales** (£330k) – Arbedion yn ymwneud â chanslo a gohirio gweithgareddau dysgu a datblygu gwahanol.
- **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** (£530k) – Mewn perthynas â chymorth heb ei ymrwymo i gyflawni cynlluniau llesiant.
- **Polisi Tai** (£550k) – Mewn perthynas â gweithgareddau datblygu polisi heb eu hymrwymo.
- **Cynllunio a Rheoleiddio** (£500k) – Mewn perthynas â chyllid heb ei ymrwymo.
- Mae'r £285k sy'n weddill o'r cyllid wedi'i ailgyfeirio yn ymwneud â gweithgareddau heb eu hymrwymo a chymorth caledi wedi'i ailgyfeirio ar gyfer awdurdodau lleol.

### Yr Economi a Thrafnidiaeth - £50m

**2.52** Mae'r cyllid sydd wedi cael ei ailgyfeirio sy'n ymwneud â'r seilwaith economaidd wedi cael ei ailgyfeirio o ganlyniad i effeithiau'r argyfwng COVID-19, yn enwedig yr effaith ar y niferoedd sy'n teithio. Bydd effaith y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn cael eu monitro'n gyson ac os

gwelir bod unrhyw fesurau'n cael effaith negyddol anghymesur, yna bydd y mesurau'n cael eu hadolygu.

- **Datblygu Seilwaith Strategol** (£740k) – Cyllid sydd ar gael oherwydd oedi yn sgil COVID-19 cyn datblygu prosiectau newydd.
- **Gweithrediadau Seilwaith TGCh** (£1m) – Mewn perthynas â gohirio gwaith ymchwil a datblygu cynlluniau newydd.
- **Datblygu Polisïau Strategol** (£450k) – Ar gael o ddyraniadau ar gyfer costau strategaethau a pholisïau, ac astudiaethau gwerthuso.
- **Y Diwydiant Hedfan** (£3.9m) – Mewn perthynas â newidiadau mewn datblygiadau yn y sector hedfan a rheoli safleoedd o ganlyniad i COVID-19.
- **Diogelwch ar y Ffyrdd** (£1m) – Mewn perthynas yn bennaf â chyllidebau hyfforddi y mae cau ysgolion wedi effeithio arnynt.
- **Cyflogadwyedd a Sgiliau** (£5.9m) – Cyllid wedi'i ailgyfeirio ar gyfer contractau hyfforddeiaeth a ReAct. Mae hyn yn cydnabod y bydd llai o lawer o unigolion yn chwilio am gymorth gyda hyfforddiant yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn. Gallai hyn effeithio ar oedolion sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod byr neu sydd heb lawer o sgiliau, gan gynnwys troseddwyr, a phobl ifanc gan fod disgwyl y bydd llai o leoedd ar gael ar rai cynlluniau. Fodd bynnag, byddwn yn cadw llygad barcud ar unrhyw newidiadau yn effeithiau'r pandemig ar y grwpiau hyn ac efallai y bydd angen i ni ailedrych ar y gyllideb hon yn nes ymlaen yn y flwyddyn.
- **Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol** (£3.1m) Cyllid i gefnogi cynlluniau polisi rhanbarthol wedi'i ailgyfeirio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau economaidd uniongyrchol mewn perthynas â COVID-19.

- **Cymru Iach ar Waith** (£300k) – Mewn perthynas â llai o weithgareddau.
- **Rhaglenni a Gwasanaethau Corfforaethol** (£602k) – Yn deillio o ailflaenoriaethu cyllidebau gweinyddol gan gynnwys cyllid heb ei ymrwymo.
- **Gweithrediadau rhwydwaith** (£7m) – Mewn perthynas ag amrywiaeth o weithgareddau sy'n cael eu rheoli. Bydd effeithiau'r gostyngiad hwn yn cael eu monitro a'u rheoli'n ofalus.
- **Seilwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol** (£650k) – Mewn perthynas â gohirio cynlluniau.
- **Cymorth Bysiau** (£7.5m) – Mewn perthynas â newid mewn darpariaeth gyda chyllid arall wedi cael ei ailflaenoriaethu i gefnogi'r diwydiant bysiau.
- **Cardiau clyfar** (350k) – Mewn perthynas â safonau TG a gweithredu cyfleusterau gweinyddol.
- **Tocynnau Teithio Rhatach** (£5m) – Mae'r niferoedd is sy'n defnyddio bysiau wedi effeithio ar y gyllideb seiliedig ar alw hon ac felly mae wedi cael ei hailflaenoriaethu i gefnogi'r diwydiant bysiau.
- **Y Cynllun Teithio Rhatach i Bobl Ifanc** (£500k) – Mae ad-dalu gweithredwyr yn dibynnu ar y galw ac mae'r ffaith bod llai yn defnyddio bysiau wedi effeithio ar hyn. Mae'r cyllid wedi cael ei ailflaenoriaethu i gefnogi'r diwydiant bysiau.
- **Dysgu Seiliedig ar Waith** (£11.8m) – Mewn perthynas â darpariaeth prentisiaethau. Bydd hyn yn lleihau nifer y cyfleoedd prentisiaeth: mae'n debygol o effeithio ar ferched gan eu bod ar y cyfan yn ymgymryd â mwy o ddarpariaeth lefel 2 a darpariaeth nad yw'n flaenoriaeth. I liniaru rhywfaint ar yr effaith hon byddwn yn parhau i annog merched i ddilyn pynciau STEM a meysydd

blaenoriaeth eraill. Bydd effaith hefyd ar Recriwtio ar gyfer Gradd-brentisiaethau.

- Mae'r £288k sy'n weddill yn ymwneud â sgiliau marchnata, gweithgareddau **Busnes Cymru** a **Chyfathrebu a Digwyddiadau Busnes Strategol**.

### Addysg - £46.6m

**2.53** Mae'r pandemig yn cael effaith anghymesur ar blant a phobl ifanc. Er bod ailgyfeirio cyllid wedi golygu na chafodd rhai gweithgareddau a gynlluniwyd eu gweithredu yn ôl y bwriad, neu cafodd prosiectau a oedd ar y gweill eu gohirio, ni chanfuwyd effaith negyddol ar y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig nac ar hawliau plant ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mewn rhai achosion gallai'r penderfyniadau sydd wedi cael eu gwneud gael effeithiau negyddol, er gwaethaf y camau rydym wedi'u cymryd i leihau neu i osgoi'r effeithiau hyn.

- **Cwricwlwm ac asesu** (£2.83m) – Mewn perthynas ag ystod o raglenni yn y gyllideb hon yr effeithiwyd arnynt oherwydd bod yr ysgolion ar gau yn yr argyfwng presennol.

- **Datblygu a chefnogi athrawon** (£7m) – Gostyngiad mewn cyllid i amrywiaeth o weithgareddau dysgu proffesiynol o ganlyniad i raglen dysgu proffesiynol consortia rhanbarthol gyda ffocws newydd a fydd yn cael ei darparu'n ddigidol yn ystod yr argyfwng. Gostyngiad yng ngrantiau Cyngor y Gweithlu Addysg a'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol gan gydnabod y bydd llai o weithgareddau yn ystod yr argyfwng.

- **Darpariaeth Addysg Bellach** (£949k) – Mewn perthynas ag ystod o ddarpariaeth y mae'r argyfwng presennol wedi effeithio arni, ond nid yw'n effeithio ar gyfleoedd i ddysgwyr unigol, gan gynnwys y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o £84k yn y Grant Urddas Mislif ar gyfer colegau Addysg Bellach

gan nad yw'n debygol y bydd myfyrwyr yn y coleg yn y chwarter cyntaf.

- **Gwariant Rhaglen CCAUC** (£16.3m) – Gostyngiad i Gymorth Grant CCAUC ar gyfer 2020-21. Mae trafodaethau'n parhau gyda CCAUC i liniaru effaith anghymesur ar fyfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig sydd efallai'n gorfod gweithio tra byddant yn astudio.

- **Grant Gwella Ysgolion** (£4.2m) – Ar sail gostyngiad o 3% yng nghyfanswm grant gwella ysgolion y consortia rhanbarthol gan adlewyrchu y bydd ysgolion ar gau am gyfran o gyfnod y cyllid grant.

- **Gwella Safonau Mewn Ysgolion** (£3.2m) – Mewn perthynas ag ystod o gyllid sydd wedi'i ohirio oherwydd bod yr ysgolion ar gau a chyllid nad oedd wedi'i ymrwymo ar gyfer rhaglenni gan gynnwys cyllid y system hunanwella ar gyfer y trefniadau Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol a phrosiect penodol yn edrych ar ddull amlasiantaeth i gefnogi'r ysgolion sydd â'r angen mwyaf.

- **Y Grant Datblygu Disgyblion** (£3m) – Mewn perthynas â chyllid heb ei ymrwymo a oedd wedi codi yng nghyllideb 2020-21 er mwyn ymestyn y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad i flynyddoedd ysgol ychwanegol. Mae pecynnau eraill o gymorth ar gyfer dysgwyr difreintiedig wedi cael eu cyflwyno, fel darpariaeth ddigidol i ddysgwyr difreintiedig. Bydd y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad yn aros yr un fath ar gyfer plant cymwys ac ni fydd unrhyw deuluoedd yn colli rhywbeth yr oedd ganddynt hawl iddo'n flaenorol.

- **Bwyd a Maeth mewn ysgolion** (£1m) – Mewn perthynas â gostyngiad yn y galw am laeth mewn ysgolion tra bydd yr ysgolion ar gau.

- **Costau gweinyddu CThEM/y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr** (£5m) – Rhyddhau refeniw yn gyfnewid am waith cyfalaf i gefnogi gweithgareddau'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.

- **Mynd i'r afael â Dadrithiad** (£1.23m) – Mewn perthynas â chyllid ar gyfer Addysg yn y Cartref nad yw wedi dechrau eto. Gallai hyn effeithio ar addysg yn y cartref ac ymgysylltu â theuluoedd, fodd bynnag bydd rhai teuluoedd sy'n darparu addysg yn y cartref yn elwa, er bod hynny mewn ffordd wahanol, oherwydd bod arian yn cael ei ailddyrannu i wasanaethau'r rheng flaen sy'n ymateb i COVID-19.

- **Cymraeg mewn Addysg** (£350k) – Mewn perthynas â chymorth ar gyfer adnoddau dwyieithog i addysgu ac i ddysgu'r Cwricwlwm a'i gymwysterau a chymorth ar gyfer Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

- **Gwyddoniaeth** (£350k) - O ganlyniad i'r effaith ar weithgareddau marchnata a chyfathrebu yn ystod yr argyfwng presennol.

- Mae'r £1.2m sy'n weddill yn ymwneud ag amrywiaeth o gyllidebau llai y mae'r argyfwng presennol yn effeithio arnynt, yn enwedig cau ysgolion a'r effeithiau cysylltiedig ar weithgareddau cyfathrebu a gweinyddol.

### Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol - £15.4m

**2.54** Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid sydd wedi cael ei ailflaenoriaethu yn ymwneud â'r meysydd twristiaeth, digwyddiadau mawr a strategaeth ryngwladol. Mae'r pandemig presennol wedi golygu nad oes modd i'r gweithgareddau hyn gael eu cyflawni yn yr un ffordd ar hyn o bryd.

**2.55** Mae'r penderfyniadau ynghylch ailflaenoriaethu cyllid ar gyfer y Gymraeg hefyd yn ymwneud â gweithgareddau a oedd wedi'u cynllunio ond nad oes modd iddynt ddigwydd nawr o ganlyniad i'r pandemig neu maent wedi cael eu gohirio neu eu haddasu.

**2.56** Gan adlewyrchu ei bod yn rhaid i bob sefydliad gyfrannu at yr argyfwng iechyd y cyhoedd ac economaidd sydd bellach o'n blaenau ni, bydd

gostyngiadau hefyd i gyllidebau cyrff a noddir:  Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Amgueddfa Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Byddwn yn gweithio’n agos gyda’r sefydliadau hyn i’w cefnogi drwy'r cyfnod anodd hwn i liniaru’r effeithiau cymaint ag y bo modd.

- **Twristiaeth** (£8m) – Mewn perthynas yn bennaf â gweithgareddau marchnata y mae’r argyfwng presennol wedi effeithio arnynt.
- **Digwyddiadau Mawr** (£1m) – Mewn perthynas â digwyddiadau sydd wedi cael eu canslo a’u gohirio.
- **Cymorth ar gyfer Chwaraeon a Diwylliant Lleol** (£455k) – Ar gael o ganlyniad i newidiadau mewn darpariaeth a hynny’n bennaf oherwydd bod cyfleusterau hamdden a lleoliadau gemau ar gau.
- **Y Gymraeg** (£2m) – Ar gael o ganlyniad i addasu'r amgylchedd dysgu a rheoli’r ddarpariaeth yn yr hinsawdd sydd ohoni.
- **Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi** (£1.3m) – Yn adlewyrchu llai o weithgareddau cefnogi oherwydd COVID-19.
- **Cysylltiadau Rhyngwladol** (£1.9m) – Mewn perthynas â digwyddiadau, cynlluniau ac ymweliadau sydd wedi cael eu canslo neu eu gohirio.
- **Amgueddfa Cymru** (£445k) – Mewn perthynas â gostyngiad o 2% wedi’i reoli mewn cyllid grant.
- Mae’r £300k sy’n weddill yn ymwneud â gostyngiad o 2% mewn cyllid grant i Lyfrgell Genedlaethol Cymru a’r Comisiwn Brenhinol yn ogystal â gostyngiad bach mewn gweithgareddau datblygu rhyngwladol.

### Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig - £24m

**2.57** Er bod nifer o effeithiau cadarnhaol ar yr amgylchedd oherwydd y pandemig hwn, wrth gydbwyso anghenion tymor byr a thymor hwy

Cymru, rydym hefyd wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynghylch rhai o gynlluniau cyfredol y gyllideb. Fodd bynnag, wrth wneud y penderfyniadau hyn, nid ydym wedi colli golwg ar ein blaenoriaeth sef cael Cymru sy'n fwy gwyrdd.

**2.58** Mae nifer o'r gostyngiadau yn y portffolio hwn yn ymwneud â chostau digwyddiadau nad ydynt yn digwydd nawr neu gellid rheoli'r gweithgaredd gyda llai o arian. Ni fwriedir i'r gostyngiadau hyn felly effeithio ar gyflawni ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r dirywiad yn ecosystemau Cymru. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro effeithiau'r penderfyniadau hyn yn ofalus.

- **COP26 a chyflenwadau ynni yn y dyfodol** (£600k) – Mewn perthynas â gohirio COP26. Bydd treialu mecanweithiau newydd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd hefyd yn cael ei ohirio tan y flwyddyn nesaf.

- **Galluogi Adnoddau Naturiol** (£4m) – Er y bydd ymrwymiadau contract cyfredol yn cael eu cyflawni, bydd hyn yn effeithio ar y gallu i ddyfarnu grantiau ychwanegol i gynlluniau yr oedd bwriad gwreiddiol i'w cyflwyno eleni.

- **Bioamrywiaeth** (£900k) - Mewn perthynas â gwerthuso cynllun grant gwaith adfer Natura 2000.

- **Y Goedwig Genedlaethol** (£390k) – Nodwyd arbedion o ran y gwaith y bwriedid ei wneud i ymgysylltu wyneb yn wyneb â ffermwyr yn ystod y gwanwyn, ond nad oes modd ei gynnal bellach. Ni ddisgwylir i hyn gael effaith fawr ar y rhaglen.

- **Cyfoeth Naturiol Cymru** (£7.58m) – Mewn perthynas ag amcan o'r effeithiau ar gyflawni yn ystod 2020-21.

- **Strategaeth Amaethyddiaeth** (£300k) – Cyllid wedi'i ailgyfeirio a fydd yn dal i alluogi'r asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer y polisi amaethyddol ar ôl gadael yr UE.

- **Prosiect Sir, Plwyf, Daliad** (£300k) – Mewn perthynas â gweithgareddau gweinyddol.
- **Deddf Tiroedd Comin** (£433k) – Gweithgareddau wedi'u hailgyfeirio y bwriedir gwneud iawn amdanynt drwy ryddhau cyllid o weithgareddau ehangach.
- **Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20** (£7m) – Mewn perthynas â chyllid wedi'i ailgyfeirio o nifer o ddyraniadau cynlluniau grant arfaethedig a chyllid Cymorth Technegol.
- **Morol a Physgodfeydd gan gynnwys trwyddedau morol** (£1.8m) – Cyllid wedi'i ailgyfeirio o waith ymchwil, datblygu marchnadoedd a masnach, gan sicrhau y diogelir Cyllideb rhwydwaith ardaloedd morol gwarchodedig Cymru.
- **Hybu Bwyd Cymru a Datblygu'r Diwydiant** (£500k) – Mewn perthynas ag amrywiaeth o weithgareddau y mae'r pandemig presennol yn effeithio arnynt.
- Mae'r £200k sy'n weddill o'r cyllid sydd wedi'i ailgyfeirio yn ymwneud ag ymchwil, cyfathrebu ac ymgysylltu y mae'r argyfwng presennol wedi effeithio arnynt.

Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu - £1.4m

- **Cydraddoldeb a Ffyniant** (£1.3m) – Mewn perthynas â gweithgareddau cyfathrebu'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol a chyllid arall heb ei ddyrannu, hyfforddiant LGBT ar-lein heb ei ymrwymo ar gyfer staff rheng flaen gwasanaethau cyhoeddus a'r cyllid Urddas Mislif gan fod yr ysgolion ar gau ac na fydd disgyblion yn defnyddio'r cynnyrch sydd ar gael, ond yn gallu eu cael drwy lwybrau gwahanol.

- Mae'r £135k sy'n weddill yn ymwneud â gweithgareddau gweinyddu, ymgysylltu a gwerthuso a'r prosiect 'Ymweld â Mam' nad yw'n bosibl yn yr amgylchiadau presennol.

### Ymyriadau eraill i ymateb i'r pandemig hwn a gyllidwyd yng Nghyllidebau'r Prif Grwpiau Gwriant

**2.59** Bu hefyd nifer o ymyriadau COVID-19 sydd wedi cael eu cyllido gan Weinidogion o fewn eu dyraniadau cyfredol yn y Prif Grwpiau Gwariant er mwyn ymateb i'r pandemig. Mae effaith y rhain yn niwtral yn gyllidol, gan fod yr ymyriadau'n cael eu cyllido yn yr amlen wariant bresennol. Mae hyn yn cynnwys:

- **£29m** yn y gyllideb trafnidiaeth ar gyfer y gronfa galedi i gwmnïau bysiau, gan gydnabod bod nifer y teithwyr wedi disgyn hyd at 90%. Bydd staff y GIG hefyd yn cael teithio am ddim ar fysiau ar hyd a lled Cymru fel rhan o'r pecyn cymorth hwn.

- **£35m** o gyllid cyfalaf o'r Gronfa Gofal Integredig a'r Rhaglen Tai Arloesol i ryddhau pobl o ysbytai yn gyflymach ac arafu'r nifer sy'n cael eu derbyn i ysbytai ac ar gyfer rhagor o lety parhaol i bobl agored i niwed sydd mewn llety dros dro.

- **£200k** o gyllid cyfalaf ar gyfer y grant Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i ymdrin â'r materion sy'n codi gan ddarparwyr lloches. Mae hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer gwelyau ychwanegol, matresi a nwyddau gwynion, yn ogystal â chyfarpar TG i blant, pobl ifanc ac oedolion sy'n gorfod astudio gartref yn sgil cau lleoliadau addysg.

- **£1.7m** ar gyfer iechyd meddwl mewn ysgolion a fydd yn cynnwys cefnogaeth newydd i wella'r ddarpariaeth cwnsela, gan gynnwys cymorth addas i'r oedran ar gyfer plant dan 11 a allai fod yn dioddef mwy o straen neu bryder o ganlyniad i'r coronafeirws.

- **£3m** ar gyfer darpariaeth ddigidol i ddysgwyr difreintiedig, gan gydnabod nad oes gan nifer o ddysgwyr ifanc fynediad at ddyfais briodol sydd wedi'i chysylltu â'r rhyngrwyd er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu ar-lein gartref a **£3m** i gyflwyno'r rhaglen 'Cadw'n Ddiogel Cadw i Ddysgu' i gefnogi dilyniant dysgu yn ystod yr argyfwng.

- **£10m** o'r Grant Cymorth Ieuenctid yn y gyllideb addysg er mwyn i wasanaethau ieuenctid barhau i ddarparu cefnogaeth, gan gynnwys drwy wasanaethau allgymorth ar-lein.

- **£5.5m** i ddarparu cymorth ychwanegol i ffermwyr Cymru a galluogi ffermwyr llaeth cymwys i hawlio hyd at **£10,000** i dalu am 70% o'r incwm maent wedi'i golli er mwyn iddynt allu parhau i weithredu heb effaith ar les anifeiliaid na'r amgylchedd.

- Dros **£4m** o gyllideb Cymorth Cymru ar gyfer y Trydydd Sector er mwyn rhoi cymorth mwy hyblyg i'r ugain o fudiadau mae'r gyllideb hon yn eu hariannu.

- Hyd at **£500k** o gyllid sydd eisoes yn bodoli i Atal Digartrefedd, i sicrhau llety ychwanegol i bobl sy'n cael eu dadleoli yn ystod y pandemig, gan gynnwys dioddefwyr cam-drin domestig ac efallai pobl a fydd yn cael eu rhyddhau o'r carchar yn gynnar. Nod y cyllid hwn yn sicrhau cydnerthedd a chapasiti ychwanegol os na fydd awdurdodau lleol yn gallu diwallu'r galw yn lleol.

- **£18m** i ddiogelu busnesau a swyddi yn y sectorau diwylliant, creadigol a chwaraeon. Bydd y cyllid yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru a Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru i gefnogi mudiadau sy'n agored i niwed yn y sectorau ac er mwyn parhau i gyflawni ein dyheadau iechyd a llesiant.

- Bydd **£800k** yn cael ei rannu rhwng yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen ar ôl i'r digwyddiadau gael eu canslo yn 2020. Bydd hyn yn helpu gyda pharhad busnes gan gynnwys cynllunio a pharatoi ar gyfer digwyddiadau 2021. Cafodd **£400k** o hyn ei drosglwyddo o'r gyllideb Digwyddiadau Cymru i'r Gymraeg o fewn Prif Grŵp Gwariant y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol.

## 3. Newidiadau i Gyllideb Cymru ers Cyllideb Derfynol 2020-21

**3.1** Mae Tablau 3.1 i 3.3 yn amlinellu effaith net yr holl newidiadau i gyllideb Cymru. Mae tabl 3.4 yn crynhoi cyfanswm y dyraniadau yn ôl y Prif Grwpiau Gwariant (MEG).

## Tabl 3.1 – Ffynonellau Cyllid Llywodraeth Cymru

| ELFENNAU CYLLIDO LLYWODRAETH CYMRU | Cyllideb Derfynol 2020-21 | Newidiadau | Cyllideb Atodol 2020-21 Cynlluniau Newydd Mai 2020 |
|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **CYLLIDO ADNODDAU** | | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** | | | |
| Cyllidol | 12,404,369 | 2,282,984 | 14,687,353 |
| Anghyllidol | 690,064 | 0 | 690,064 |
| Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru | 125,000 | 0 | 125,000 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | | | |
| Cyllidol | 22,159 | 0 | 22,159 |
| Anghyllidol | 135,499 | 0 | 135,499 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | | | |
| Ardrethi Annomestig | 1,136,000 | -332,000 | 804,000 |
| Cyfradd Treth Incwm Cymru | 2,199,570 | -29,902 | 2,169,668 |
| Treth Trafodiadau Tir | 249,680 | 4,328 | 254,008 |
| Treth Gwarediadau Tirlenwi | 35,612 | -1,459 | 34,153 |
| Prif ad-daliad o'r benthyciad | -2,362 | 0 | -2,362 |
| **CYFANSWM CYLLIDO ADNODDAU** | **16,995,591** | **1,923,951** | **18,919,542** |
| **CYLLIDO CYFALAF** | | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** | | | |
| Cyffredinol | 1,982,009 | 145,543 | 2,127,552 |
| Trafodiadau Ariannol | 300,255 | 3,651 | 303,906 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | | | |
| Cyfalaf | 863,631 | 0 | 863,631 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | | | |
| Benthyca | 125,000 | 0 | 125,000 |
| **CYFANSWM CYLLIDO CYFALAF** | **3,270,895** | **149,194** | **3,420,089** |
| **CYFANSWM CYLLIDO CYMRU** | **20,266,486** | **2,073,145** | **22,339,631** |

## Tabl 3.2 – Dyrannu Cyllideb Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | | £000oedd | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Cyllideb Derfynol 2020-21** | **Newidiadau** | **Cyllideb Atodol 2020-21 Cynlluniau Newydd Mai 2020** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | | 8,958,593 | 481,169 | 9,439,762 |
| Tai a Llywodraeth Leol | | 5,866,279 | 194,720 | 6,060,999 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | | 1,552,711 | 1,266,200 | 2,818,911 |
| Addysg | | 2,524,521 | -46,552 | 2,477,969 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | | 220,310 | -15,414 | 204,896 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | | 350,162 | 222,145 | 572,307 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | 387,093 | 22,609 | 409,702 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i MEG Llywodraeth Cymru** | | **19,859,669** | **2,124,877** | **21,984,546** |
| Cyllid yr UE wedi'i ailgyfeirio at ddibenion mesurau COVID-19 | | 0 | -245,000 | -245,000 |
| **Dyraniadau Arfaethedig i MEG Llywodraeth Cymru** | | **19,859,669** | **1,879,877** | **21,739,546** |
| Adnoddau heb eu Dyrannu | Adnoddau Cyllidol | 105,441 | 42,912 | 148,353 |
| | Adnoddau Anghyllidol | 148,109 | 3,014 | 151,123 |
| Cyfalaf heb ei glustnodi | Cyffredinol | 31,799 | 145,543 | 177,342 |
| | Trafodiadau Ariannol | 45,939 | 3,651 | 49,590 |
| Comisiwn y Senedd [Nodyn 1] | | 61,411 | -1,836 | 59,575 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru [Nodyn1] | | 5,126 | -16 | 5,110 |
| Swyddfa Archwilio Cymru [Nodyn 2] | | 8,228 | 0 | 8,228 |
| Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | | 764 | 0 | 764 |
| **CYFANSWM CYLLIDEB CYMRU** | | **20,266,486** | **2,073,145** | **22,339,631** |

Nodiadau

1. Mae ffigurau Cyllideb Derfynol 2020-21 ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol yn cynnwys effaith ariannol gweithredu'r safon gyfrifyddu newydd ar gyfer prydlesi, IFRS16. Mae rhoi'r safon ar waith bellach wedi'i ohirio tan 2021-22 ac felly mae'r cyllidebau ar gyfer Comisiwn y Senedd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi'u diwygio yn unol â hynny.
2. Nid oedd y safon newydd yn effeithio ar gyllideb Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2020-21, felly nid oes angen diwygio ffigurau'r Gyllideb Derfynol.

## Tabl 3.3 – Newidiadau i Ddyraniadau Adnoddau MEG Llywodraeth Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | CYLLIDOL | | | ANGHYLLIDOL | | |
| | Cyllideb Derfynol 2020-21 | Newidiadau | Cyllideb Atodol 2020-21 Cynlluniau Newydd Mai 2020 | Cyllideb Derfynol 2020-21 | Newidiadau | Cyllideb Atodol 2020-21 Cynlluniau Newydd Mai 2020 |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 8,176,438 | 481,169 | 8,657,607 | 190,000 | 0 | 190,000 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 3,970,194 | 526,720 | 4,496,914 | 240 | 0 | 240 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 540,060 | 1,266,200 | 1,806,260 | 192,400 | 0 | 192,400 |
| Addysg | 1,460,021 | -46,552 | 1,413,469 | 107,154 | 0 | 107,154 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 159,202 | -15,414 | 143,788 | 8,882 | 0 | 8,882 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 195,095 | 222,145 | 417,240 | 21,675 | 0 | 21,675 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 337,848 | 22,609 | 360,457 | 16,000 | 0 | 16,000 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i MEG Llywodraeth Cymru** | **14,838,858** | **2,456,877** | **17,295,735** | **536,351** | **0** | **536,351** |

## Tabl 3.4 – Newidiadau i Ddyraniadau Cyfalaf MEG Llywodraeth Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | CYFALAF CYFFREDINOL | | | TRAFODIADAU ARIANNOL | | |
| | Cyllideb Derfynol 2020-21 | Newidiadau | Cyllideb Atodol 2020-21 Cynlluniau Newydd Mai 2020 | Cyllideb Derfynol 2020-21 | Newidiadau | Cyllideb Atodol 2020-21 Cynlluniau Newydd Mai 2020 |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 374,488 | 0 | 374,488 | 0 | 0 | 0 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 585,085 | 0 | 585,085 | 150,505 | 0 | 150,505 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 705,466 | 0 | 705,466 | 85,260 | 0 | 85,260 |
| Addysg | 217,711 | 0 | 217,711 | -195 | 0 | -195 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 33,467 | 0 | 33,467 | 15,746 | 0 | 15,746 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 128,992 | 0 | 128,992 | 2,000 | 0 | 2,000 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 29,246 | 0 | 29,246 | 1,000 | 0 | 1,000 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i MEG Llywodraeth Cymru** | **2,074,455** | 0 | **2,074,455** | **254,316** | **0** | **254,316** |

**3.2** Darperir trosolwg o'r newidiadau i'r ffynonellau cyllid isod a gellir gweld manylion dyraniadau o gronfeydd wrth gefn yn adran 4.

## Addasiadau i Ffynonellau Cyllid

### Adnoddau Cyllidol

**3.3** Cafwyd cynnydd net o £2,282,984k i'r llinell sylfaen Adnoddau Cyllidol gan gynnwys:

- Symiau canlyniadol Barnett yn dod i gyfanswm o £2,002,885k gan gynnwys:
  - £19,196k o ganlyniad i addasiadau a wnaed gan Drysorlys EM mewn perthynas â'r newidiadau canlyniadol yn 2019-20, a ohiriwyd gan Lywodraeth Cymru tan 2020-21;
  - £122,787k o ganlyniad i Gyllideb y DU ym mis Mawrth 2020. (Roedd £618k o ganlyniad i hawliadau gan Adran o Lywodraeth y DU ar y cronfeydd wrth gefn);
  - £1,856,310k a gafwyd yn y Prif Amcangyfrifon mewn perthynas â chyllid ar gyfer ymateb i COVID-19 yn benodol;
  - £4,592k a gafwyd yn y Prif Amcangyfrifon o ganlyniad i hawliadau gan Adran arall o Lywodraeth y DU ar y cronfeydd wrth gefn;
- Trosglwyddiad o £19,188k i mewn oddi wrth y Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r Gordal Iechyd Mewnfudo;
- Trosglwyddiad o £231,145k i mewn gan Drysorlys EM mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol ar gyfer cymorthdaliadau fferm;
- Trosglwyddiad o £391k i mewn oddi wrth Drysorlys EM mewn perthynas â Gwasanaethau Cyngor Ariannol;
- Trosglwyddiad o £29,475k i mewn gan Drysorlys EM o ganlyniad i ailgyfrifo a lleihau'r addasiad grant bloc;
- Trosglwyddiad o £100k allan i Drysorlys EM mewn perthynas ag ariannu'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol am waith a wnaed ar ragolygon trethi datganoledig.

### Adnoddau Anghyllidol

**3.4** Ni fu unrhyw newid i'r llinell sylfaen adnoddau anghyllidol ers y Gyllideb Derfynol.

### Cyllido Datganoledig Cymru

**3.5** Oherwydd bod Cyllideb y DU yn hwyr yn cael ei chyhoeddi, nid oedd rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o Gyfradd Treth Incwm Cymru (CTIC) a threthi datganoledig wedi'u hadlewyrchu yn y Gyllideb Derfynol. Mae'r rhagolygon a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Mawrth 2020 yn adlewyrchu lleihad cyfun mewn refeniw trethi datganoledig o £(27,033)k.

### Cyfalaf Cyffredinol

**3.6** Cafwyd cynnydd o £145,543k i'r linell sylfaen cyfalaf cyffredinol gan gynnwys:

- Lleihad o £(99,985)k o ganlyniad i addasiadau a wnaed gan Drysorlys EM mewn perthynas â newidiadau canlyniadol yn 2019-20, a ohiriwyd gan Lywodraeth Cymru tan 2020-21;
- Symiau canlyniadol Barnett yn dod i gyfanswm o £245,528k, gan gynnwys:
  - ➢ £218,416k o ganlyniad i Gyllideb y DU ym mis Mawrth 2020. (Roedd £3,238k o ganlyniad i hawliadau gan Adran arall o Lywodraeth y DU ar y cronfeydd wrth gefn); and
  - ➢ £27,112k a gafwyd yn y Prif Amcangyfrifon. Roedd £14,718k o hwn o ganlyniad i hawliad Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU ar gronfeydd wrth gefn ac roedd £12,394k ohono yn ymwneud â throsglwyddiadau'r gyllideb gydag adrannau eraill o Lywodraeth y DU.

### Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

**3.7** Mae'r llinell sylfaen sydd wedi'i chlustnodi ar gyfer cyfalaf trafodiadau ariannol wedi cynyddu £3,651k oherwydd cyllid canlyniadol a dderbyniwyd o ganlyniad i Gyllideb y DU ym mis Mawrth 2020.

## Cyllido AME

**3.8** Cafwyd un newid i gyllido a gwariant AME ers y Gyllideb Derfynol. Mae manylion y newid i’w gweld ym Mhennod 5.

## Tabl 3.5 – Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru

| | CYFANSWM DYRANIADAU MEG 2020-21 yn ôl y GYLLIDEB ATODOL | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | | | | | | | | | |
| | Adnoddau | | | Cyfalaf | | | AME | | | CYFANSWM DYRANIAD MEG |
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | Cyllidol | Anghyllidol | Cyfanswm Adnoddau | Cyffredinol | Trafodiadau Ariannol | Cyfanswm Cyfalaf | Adnoddau | Cyfalaf | Cyfanswm AME | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 8,657,607 | 190,000 | **8,847,607** | 374,488 | 0 | **374,488** | 217,667 | 0 | **217,667** | **9,439,762** |
| Tai a Llywodraeth Leol | 4,496,914 | 240 | **4,497,154** | 585,085 | 150,505 | **735,590** | 828,255 | 0 | **828,255** | **6,060,999** |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 1,806,260 | 192,400 | **1,998,660** | 705,466 | 85,260 | **790,726** | 29,525 | 0 | **29,525** | **2,818,911** |
| Addysg | 1,413,469 | 107,154 | **1,520,623** | 217,711 | -195 | **217,516** | -123,801 | 863,631 | **739,830** | **2,477,969** |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 143,788 | 8,882 | **152,670** | 33,467 | 15,746 | **49,213** | 3,013 | 0 | **3,013** | **204,896** |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 417,240 | 21,675 | **438,915** | 128,992 | 2,000 | **130,992** | 2,400 | 0 | **2,400** | **572,307** |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 360,457 | 16,000 | **376,457** | 29,246 | 1,000 | **30,246** | 2,999 | 0 | **2,999** | **409,702** |
| **CYFANSWM Y DYRANIADAU I MEG LLYWODRAETH CYMRU** | **17,295,735** | **536,351** | **17,832,086** | **2,074,455** | **254,316** | **2,328,771** | **960,058** | **863,631** | **1,823,689** | **21,984,546** |

## 4. Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn

**4.1** Mae'r gyllideb hon yn unioni nifer o ddyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac ohonynt. Mae rhestr gyflawn i'w chael yn nhabl 4.1.

### Dyraniadau o Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

**4.2** Gwnaed cyfanswm o £2,461,009k o ddyraniadau o’r cronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn mewn ymateb i COVID-19. Mae’r dyraniadau fel a ganlyn ac mae manylion llawn y BEL y dyrannwyd yr arian iddynt wedi’u nodi yn nhabl 4.1:

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol £ 574,189k
- Tai a Llywodraeth Leol £ 531,620k
- Yr Economi a Thrafnidiaeth £ 1,316,200k
- Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig £ 15,000k
- Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu £ 24,000k

**4.3** Yn ogystal, gwnaed y dyraniadau canlynol i bortffolios o gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn:

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:
  - £20,869k i BEL Dyraniadau Craidd y GIG mewn perthynas â'r Gordal Iechyd Mewnfudo;
- Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig:
  - £231,145k i BEL Taliadau Uniongyrchol Piler 1 Amaethyddiaeth yr UE mewn perthynas â chyllid a gafwyd o Drysorlys EM.

**4.4** Gwnaed cyfanswm o £1,162k o ddyraniadau ychwanegol o’r cronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn i’r cyrff a ariennir yn uniongyrchol o ganlyniad i ohirio’r safon gyfrifyddu newydd ar gyfer prydlesi (IFRS16) hyd at flwyddyn ariannol 2021-22. Mae’r trosglwyddiadau yn cynnwys:

- £929k i Gomisiwn y Senedd;
- £233k i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## Trosglwyddiadau i Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

**4.5** Gwnaed cyfanswm o £256,246k o drosglwyddiadau i gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn o ganlyniad i ail-flaenoriaethu cyllid o fewn portffolios er mwyn cyfrannu tuag at yr ymateb i COVID-19. Mae'r cyfraniadau fesul MEG fel a ganlyn ac mae manylion llawn y BEL y gwnaethpwyd y cyfraniadau ohonynt ar gael yn Nhabl 4.1:

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol £113,889k
- Tai a Llywodraeth Leol £ 5,000k
- Yr Economi a Thrafnidiaeth £ 50,000k
- Addysg £ 46,552k
- Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol £ 15,414k
- Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig £ 24,000k
- Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu £ 1,391k

## Dyraniadau o Gronfeydd Adnoddau Anghyllidol Wrth Gefn

**4.6** Ni fu unrhyw ddyraniadau o gronfeydd adnoddau anghyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon.

## Trosglwyddiadau i Gronfeydd Adnoddau Anghyllidol Wrth Gefn

**4.7** Bu cyfanswm o £3,014k o drosglwyddiadau o'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol i gronfeydd adnoddau anghyllidol wrth gefn. Mae'r trosglwyddiadau wedi deillio o ganlyniad i ohirio'r safon gyfrifyddu newydd ar gyfer prydlesi, IFRS16, hyd at flwyddyn ariannol 2021-22. Mae'r trosglwyddiadau yn cynnwys:

- £2,765k oddi wrth Gomisiwn y Senedd;
- £249k oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## Dyraniadau o Gronfeydd Cyfalaf Cyffredinol Wrth Gefn a Throsglwyddiadau Iddynt

**4.8** Ni fu unrhyw ddyraniadau cyfalaf cyffredinol i'r cronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn na throsglwyddiadau iddynt yn y gyllideb atodol hon.

## Dyraniadau o Gronfeydd Cyfalaf Trafodiadau Ariannol Wrth Gefn a Throsglwyddiadau Iddynt

**4.9** Ni chafwyd unrhyw ddyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol o gronfeydd cyfalaf trafodiadau ariannol wrth gefn na throsglwyddiadau iddynt yn y gyllideb atodol hon.

Mae tabl 4.1 isod yn adlewyrchu'r holl symudiadau ar gronfeydd wrth gefn:

**Tabl 4.1 - Newidiadau i Gronfeydd wrth gefn 2020-21 ers y Gyllideb Derfynol a'r Dyraniadau o Gronfeydd Wrth Gefn sy'n cael eu gwneud yn y Gyllideb Atodol hon**

| | £000oedd | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adnoddau Cyllidol | Adnoddau Anghyllidol | Cyfanswm yr Adnodd | Cyfalaf Cyffredinol | Cyfalaf Trafodiadau Ariannol | Cyfanswm Cyfalaf | Cyfanswm |
| **Cronfeydd wrth gefn adeg y Gyllideb Derfynol** | **105,441** | **148,109** | **253,550** | **31,799** | **45,939** | **77,738** | **331,288** |
| Trosglwyddiadau a symiau canlyniadol ers y Gyllideb Derfynol | 2,282,984 | -1,351 | **2,281,633** | 145,543 | 3,651 | **149,194** | **2,430,827** |
| **Cronfeydd Diwygiedig** | **2,388,425** | **146,758** | **2,535,183** | **177,342** | **49,590** | **226,932** | **2,762,115** |
| **Newidiadau:** | | | | | | | |
| **IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | | | | | | | |
| Y Gordal Iechyd Mewnfudo | -20,869 | 0 | **-20,869** | 0 | 0 | **0** | **-20,869** |
| Cyfraniadau COVID-19: | 113,889 | 0 | **113,889** | 0 | 0 | **0** | **113,889** |
| Dyraniadau Craidd y GIG | 68,000 | 0 | **68,000** | 0 | 0 | **0** | **68,000** |
| Dyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG | 500 | 0 | **500** | 0 | 0 | **0** | **500** |
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru | 500 | 0 | **500** | 0 | 0 | **0** | **500** |
| Cymru Iachach | 6,500 | 0 | **6,500** | 0 | 0 | **0** | **6,500** |
| Cyllidebau Eraill y GIG | 327 | 0 | **327** | 0 | 0 | **0** | **327** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg a Hyfforddiant | 3,000 | 0 | **3,000** | 0 | 0 | **0** | **3,000** |
| Cyllidebau Canolog Datblygu'r Gweithlu | 300 | 0 | **300** | 0 | 0 | **0** | **300** |
| Gwella Iechyd a Chymru Iach ar Waith | 2,000 | 0 | **2,000** | 0 | 0 | **0** | **2,000** |
| Diogelu Iechyd ac Imiwneiddio wedi'u Targedu | 665 | 0 | **665** | 0 | 0 | **0** | **665** |
| Diogelu ac Eirioli | 702 | 0 | **702** | 0 | 0 | **0** | **702** |
| Y Sector Gofal | 244 | 0 | **244** | 0 | 0 | **0** | **244** |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy | 195 | 0 | **195** | 0 | 0 | **0** | **195** |
| Cymorth Gofal Plant a Chwarae | 30,000 | 0 | **30,000** | 0 | 0 | **0** | **30,000** |
| Cymorth Hawliau Plant | 191 | 0 | **191** | 0 | 0 | **0** | **191** |
| Cymorth i Deuluoedd a Phlant | 765 | 0 | **765** | 0 | 0 | **0** | **765** |
| Dyraniadau COVID-19: | -574,189 | 0 | **-574,189** | 0 | 0 | **0** | **-574,189** |
| Dyraniadau Craidd y GIG | -313,501 | 0 | **-313,501** | 0 | 0 | **0** | **-313,501** |
| Dyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG | -139,675 | 0 | **-139,675** | 0 | 0 | **0** | **-139,675** |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | -44,000 | 0 | **-44,000** | 0 | 0 | **0** | **-44,000** |
| Cyllidebau Eraill y GIG | -900 | 0 | **-900** | 0 | 0 | **0** | **-900** |
| Cyllidebau Canolog Datblygu'r Gweithlu | -1,047 | 0 | **-1,047** | 0 | 0 | **0** | **-1,047** |
| Cronfa'r Cynllun Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau | -3,500 | 0 | **-3,500** | 0 | 0 | **0** | **-3,500** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwella Iechyd a Chymru Iach ar Waith | -425 | 0 | **-425** | 0 | 0 | **0** | **-425** |
| Diogelu ac Eirioli | -702 | 0 | **-702** | 0 | 0 | **0** | **-702** |
| Y Sector Gofal | -244 | 0 | **-244** | 0 | 0 | **0** | **-244** |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy | -40,195 | 0 | **-195** | 0 | 0 | **0** | **-195** |
| Cymorth Gofal Plant a Chwarae | -30,000 | 0 | **-30,000** | 0 | 0 | **0** | **-30,000** |
| **IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | **-481,169** | **0** | **-481,169** | **0** | **0** | **0** | **-481,169** |
| **TAI A LLYWODRAETH LEOL** | | | | | | | |
| Cyfraniadau COVID-19: | 5,000 | 0 | **5,000** | 0 | 0 | **0** | **5,000** |
| Trawsnewid a Deddfwriaeth | 2,805 | 0 | **2,805** | 0 | 0 | **0** | **2,805** |
| Gwariant i Hybu Democratiaeth Leol | 76 | 0 | **76** | 0 | 0 | **0** | **76** |
| Gwella a Chefnogi | 160 | 0 | **160** | 0 | 0 | **0** | **160** |
| Academi Wales | 330 | 0 | **330** | 0 | 0 | **0** | **330** |
| Cynghorau Tref a Chymuned | 49 | 0 | **49** | 0 | 0 | **0** | **49** |
| Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus | 530 | 0 | **530** | 0 | 0 | **0** | **530** |
| Polisi Tai | 550 | 0 | **550** | 0 | 0 | **0** | **550** |
| Gwariant ar Gynllunio a Rheoleiddio | 500 | 0 | **500** | 0 | 0 | **0** | **500** |
| Dyraniadau COVID-19: | -531,720 | 0 | **-531,720** | 0 | 0 | **0** | **-531,720** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhyddhad Ardrethi Annomestig | -332,000 | 0 | **-332,000** | 0 | 0 | **0** | **-332,000** |
| Cymorth Ariannol Brys | -30,000 | 0 | **-30,000** | 0 | 0 | **0** | **-30,000** |
| Cymorth Ariannol Brys | -40,000 | 0 | **-40,000** | 0 | 0 | **0** | **-40,000** |
| Cymorth Ariannol Brys | -33,400 | 0 | **-33,400** | 0 | 0 | **0** | **-33,400** |
| Cymorth Ariannol Brys | -7,000 | 0 | **-7,000** | 0 | 0 | **0** | **-7,000** |
| Cymorth Ariannol Brys | -78,100 | 0 | **-78,100** | 0 | 0 | **0** | **-78,100** |
| Cynhwysiant Ariannol | -11,220 | 0 | **-11,220** | 0 | 0 | **0** | **-11,220** |
| **TAI A LLYWODRAETH LEOL** | **-526,720** | **0** | **-526,720** | **0** | **0** | **0** | **-526,720** |
| **YR ECONOMI A THRAFNIDIAETH** | | | | | | | |
| Cyfraniadau COVID-19: | 50,000 | 0 | **50,000** | 0 | 0 | **0** | **50,000** |
| Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol | 3,060 | 0 | **3,060** | 0 | 0 | **0** | **3,060** |
| Busnes Cymru | 140 | 0 | **140** | 0 | 0 | **0** | **140** |
| Datblygu Seilwaith Strategol | 740 | 0 | **740** | 0 | 0 | **0** | **740** |
| Gweithrediadau Seilwaith TGCh | 1,000 | 0 | **1,000** | 0 | 0 | **0** | **1,000** |
| Datblygu Polisi Strategol | 450 | 0 | **450** | 0 | 0 | **0** | **450** |
| Cymru Iach ar Waith | 300 | 0 | **300** | 0 | 0 | **0** | **300** |
| Rhaglenni a Gwasanaethau Corfforaethol | 602 | 0 | **602** | 0 | 0 | **0** | **602** |
| Digwyddiadau Busnes Strategol a Chyfathrebu | 100 | 0 | **100** | 0 | 0 | **0** | **100** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithredu’r Rhwydwaith | 7,000 | 0 | **7,000** | 0 | 0 | **0** | **7,000** |
| Y Diwydiant Hedfan | 3,900 | 0 | **3,900** | 0 | 0 | **0** | **3,900** |
| Y Seilwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol | 650 | 0 | **650** | 0 | 0 | **0** | **650** |
| Cymorth Bysiau | 7,500 | 0 | **7,500** | 0 | 0 | **0** | **7,500** |
| Cardiau Clyfar | 350 | 0 | **350** | 0 | 0 | **0** | **350** |
| Tocynnau Teithio Rhatach | 5,000 | 0 | **5,000** | 0 | 0. | **0** | **5,000** |
| Y Cynllun Teithio Rhatach i Bobl Ifanc | 500 | 0 | **500** | 0 | 0 | **0** | **500** |
| Diogelwch ar y Ffyrdd | 1,000 | 0 | **1,000** | 0 | 0 | **0** | **1,000** |
| Dysgu Seiliedig ar Waith | 11,800 | 0 | **11,800** | 0 | 0 | **0** | **11,800** |
| Sgiliau Marchnata | 48 | 0 | **48** | 0 | 0 | **0** | **48** |
| Cyflogadwyedd a Sgiliau | 5,860 | 0 | **5,860** | 0 | 0 | **0** | **5,860** |
| Dyraniadau COVID-19: | -1,316,200 | 0 | **-1,316,200** | 0 | 0 | **0** | **-1,316,200** |
| Busnes Cymru | -850,000 | 0 | **-850,000** | 0 | 0 | **0** | **-850,000** |
| Busnes Cymru | -26,000 | 0 | **-26,000** | 0 | 0 | **0** | **-26,000** |
| Busnes Cymru | -400,000 | 0 | **-400,000** | 0 | 0 | **0** | **-400,000** |
| Trafnidiaeth Cymru | -40,200 | 0 | **-40,200** | 0 | 0 | **0** | **-40,200** |
| **YR ECONOMI A THRAFNIDIAETH** | **-1,266,200** | **0** | **-1,266,200** | **0** | **0** | **0** | **-1,266,200** |

| ADDYSG | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfraniadau COVID-19: | 46,552 | 0 | **46,552** | 0 | 0 | **0** | **46,552** |
| Llythrennedd a Rhifedd | 200 | 0 | **200** | 0 | 0 | **0** | **200** |
| Cwricwlwm ac Asesu | 2,827 | 0 | **2,827** | 0 | 0 | **0** | **2,827** |
| Adolygu'r Cwricwlwm | 200 | 0 | **200** | 0 | 0 | **0** | **200** |
| Datblygu a Chefnogi Athrawon | 7,019 | 0 | **7,019** | 0 | 0 | **0** | **7,019** |
| Darpariaeth Addysg Bellach | 949 | 0 | **949** | 0 | 0 | **0** | **949** |
| Gwariant Rhaglen CCAUC | 16,300 | 0 | **16,300** | 0 | 0 | **0** | **16,300** |
| Y Grant Gwella Ysgolion | 4,200 | 0 | **4,200** | 0 | 0 | **0** | **4,200** |
| Gwella Safonau mewn Ysgolion | 3,168 | 0 | **3,168** | 0 | 0 | **0** | **3,168** |
| Cefnogi Safonau mewn Ysgolion | 200 | 0 | **200** | 0 | 0 | **0** | **200** |
| Y Grant Datblygu Disgyblion | 3,000 | 0 | **3,000** | 0 | 0 | **0** | **3,000** |
| Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg | 150 | 0 | **150** | 0 | 0 | **0** | **150** |
| Bwyd a Maeth mewn Ysgolion | 1,000 | 0 | **1,000** | 0 | 0 | **0** | **1,000** |
| Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr / Costau Gweinyddol CThEM | 5,000 | 0 | **5,000** | 0 | 0 | **0** | **5,000** |
| Trechu Dadrithiad | 1,231 | 0 | **1,231** | 0 | 0 | **0** | **1,231** |
| Cyfathrebu mewn Addysg | 188 | 0 | **188** | 0 | 0 | **0** | **188** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tystiolaeth Ymchwil a Rhyngwladol | 116 | 0 | **116** | 0 | 0 | **0** | **116** |
| Y Gymraeg mewn Addysg | 350 | 0 | **350** | 0 | 0 | **0** | **350** |
| Arloesi ar gyfer Busnes | 104 | 0 | **104** | 0 | 0 | **0** | **104** |
| Gwyddoniaeth | 350 | 0 | **350** | 0 | 0 | **0** | **350** |
| **ADDYSG** | **46,552** | **0** | **46,552** | **0** | **0** | **0** | **46,552** |
| **Y GYMRAEG A CHYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL** | | | | | | | |
| Cyfraniadau COVID-19: | 15,414 | 0 | **15,414** | 0 | 0 | **0** | **15,414** |
| Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi | 1,283 | 0 | **1,283** | 0 | 0 | **0** | **1,283** |
| Twristiaeth | 8,012 | 0 | **8,012** | 0 | 0 | **0** | **8,012** |
| Digwyddiadau Cymru | 1,010 | 0 | **1,010** | 0 | 0 | **0** | **1,010** |
| Amgueddfa Cymru | 445 | 0 | **445** | 0 | 0 | **0** | **445** |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | 200 | 0 | **200** | 0 | 0 | **0** | **200** |
| Cymorth ar gyfer Diwylliant a Chwaraeon Lleol | 380 | 0 | **380** | 0 | 0 | **0** | **380** |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | 33 | 0 | **33** | 0 | 0 | **0** | **33** |
| Cymorth ar gyfer Chwaraeon | 75 | 0 | **75** | 0 | 0 | **0** | **75** |
| Y Gymraeg | 1,995 | 0 | **1,995** | 0 | 0 | **0** | **1,995** |
| Datblygu Rhyngwladol | 65 | 0 | **65** | 0 | 0 | **0** | **65** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cysylltiadau Rhyngwladol | 1,916 | 0 | **1,916** | 0 | 0 | **0** | **1,916** |
| **Y GYMRAEG A CHYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL** | **15,414** | **0** | **15,414** | **0** | **0** | **0** | **15,414** |
| **YR AMGYLCHEDD, YNNI A MATERION GWLEDIG** | | | | | | | |
| Taliadau uniongyrchol ar gyfer Cymorthdaliadau i ffermydd | -231,145 | 0 | **-231,145** | 0 | 0 | **0** | **-231,145** |
| Cyfraniadau COVID-19: | 24,000 | 0 | **24,000** | 0 | 0 | **0** | **24,000** |
| Datgarboneiddio ac Ynni | 600 | 0 | **600** | 0 | 0 | **0** | **600** |
| Galluogi Adnoddau Naturiol | 4,000 | 0 | **4,000** | 0 | 0 | **0** | **4,000** |
| Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion | 900 | 0 | **900** | 0 | 0 | **0** | **900** |
| Coedwigaeth | 390 | 0 | **390** | 0 | 0 | **0** | **390** |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | 7,577 | 0 | **7,577** | 0 | 0 | **0** | **7,577** |
| Strategaeth Amaethyddiaeth | 300 | 0 | **300** | 0 | 0 | **0** | **300** |
| Ennyn Diddordeb Cwsmeriaid Amaethyddiaeth | 150 | 0 | **150** | 0 | 0 | **0** | **150** |
| Y Prosiect Daliadau Amaethyddiaeth | 300 | 0 | **300** | 0 | 0 | **0** | **300** |
| Y Ddeddf Tir Comin | 433 | 0 | **433** | 0 | 0 | **0** | **433** |
| Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020 | 7,000 | 0 | **7,000** | 0 | 0 | **0** | **7,000** |
| Y Môr a Physgodfeydd | 1,800 | 0 | **1,800** | 0 | 0 | **0** | **1,800** |
| Hyrwyddo Bwyd Cymru a Datblygu'r Diwydiant | 500 | 0 | **500** | 0 | 0 | **0** | **500** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid | 50 | 0 | **50** | 0 | 0 | **0** | **50** |
| Dyraniadau COVID-19: | -15,000 | 0 | **-15,000** | **0** | 0 | **0** | **-15,000** |
| Hyrwyddo Bwyd Cymru a Datblygu'r Diwydiant | -15,000 | 0 | **-15,000** | **0** | 0 | **0** | **-15,000** |
| **YR AMGYLCHEDD, YNNI A MATERION GWLEDIG** | **-222,145** | **0** | **-222,145** | **0** | **0** | **0** | **-222,145** |
| **GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU** | | | | | | | |
| Dyraniadau COVID-19: | 1,391 | 0 | **1,391** | 0 | 0 | **0** | **1,391** |
| Cydraddoldeb a Ffyniant | 1,256 | 0 | **1,256** | 0 | 0 | **0** | **1,256** |
| Gwasanaethau Eiriolaeth | 10 | 0 | **10** | 0 | 0 | **0** | **10** |
| Swyddogion Cymorth Cymunedol | 37 | 0 | **37** | 0 | 0 | **0** | **37** |
| Glasbrintiau ar gyfer Troseddu gan Fenywod a Chyfiawnder Ieuenctid | 88 | 0 | **88** | 0 | 0 | **0** | **88** |
| Dyraniadau COVID-19: | -24,000 | 0 | **-24,000** | 0 | 0 | **0** | **-24,000** |
| Cymorth i'r Sector Gwirfoddol a Gwirfoddoli | -24,000 | 0 | **-24,000** | 0 | 0 | **0** | **-24,000** |
| **GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU** | **-22,609** | **0** | **-22,609** | **0** | **0** | **0** | **-22,609** |

| NEWIDIADAU ERAILL SY'N EFFEITHIO AR GRONFEYDD WRTH GEFN | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gohirio gweithredu'r safon gyfrifyddu newydd ar gyfer prydlesi (IFRS16) – Comisiwn y Senedd | -929 | 2,765 | **1,836** | 0 | 0 | **0** | **1,836** |
| Gohirio gweithredu'r safon gyfrifyddu newydd ar gyfer prydlesi (IFRS16) – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | -233 | 249 | **16** | 0 | 0 | **0** | **16** |
| **NEWIDIADAU ERAILL SY'N EFFEITHIO AR GRONFEYDD WRTH GEFN** | **-1,162** | **3,014** | **1,852** | **0** | **0** | **0** | **1,852** |
| **Cronfeydd Wrth Gefn yn y Gyllideb hon** | **148,353** | **151,123** | **299,476** | **177,342** | **49,590** | **226,932** | **526,408** |

## 5. Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

**5.1** Roedd y cyllidebau AME y manylir arnynt yn y Gyllideb Derfynol yn adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf a ddarparwyr i Drysorlys EM.

**5.2** Mae un addasiad wedi'i wneud ers cymeradwyo'r Gyllideb Derfynol:

- Mae'r gyllideb Rhyddhad Ardrethi Annomestig o fewn y MEG Tai a Llywodraeth Leol wedi'i leihau £332,000k i wrthbwyso'r cyllid DEL ychwanegol o £332,000k a ddarparwyd i'r MEG. Gwnaed y dyraniad DEL mewn ymateb i'r gostyngiad disgwyliedig mewn refeniw ardrethi annomestig i lywodraeth leol o ganlyniad i COVID-19.

Mae tabl 5.1 isod yn yn nodi'r cyllidebau AME cyfredol.

## Tabl 5.1 – Newidiadau i Ddyraniadau AME MEG Llywodraeth Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ADNODDAU | | | CYFALAF | | |
| | Cyllideb Derfynol 2020-21 | Newidiadau | Cyllideb Atodol 2020-21 Cynlluniau Newydd Mai 2020 | Cyllideb Derfynol 2020-21 | Newidiadau | Cyllideb Atodol 2020-21 Cynlluniau Newydd Mai 2020 |
| Iechyd a Gwasanaeth Cymdeithasol | 217,667 | 0 | 217,667 | 0 | 0 | 0 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 1,160,255 | -332,000 | 828,255 | 0 | 0 | 0 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 29,525 | 0 | 29,525 | 0 | 0 | 0 |
| Addysg | -123,801 | 0 | -123,801 | 863,631 | 0 | 863,631 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | 3,013 | 0 | 3,013 | 0 | 0 | 0 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 2,400 | 0 | 2,400 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 2,999 | 0 | 2,999 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Dyraniad i Lywodraeth Cymru** | **1,292,058** | **-332,000** | **960,058** | **863,631** | **0** | **863,631** |

## Atodiad 1 – Gwybodaeth sy’n dod i’r amlwg am Effeithiau Anghymesur y Pandemig

1 Mae llawer o wybodaeth yn dod i’r amlwg am effeithiau anghymesur y pandemig. Mae hyn yn cynnwys effeithiau uniongyrchol y coronafeirws a’r effeithiau hynny sy’n ymwneud â’r mesurau y mae angen eu cymryd ar draws y DU i ymateb i’r sefyllfa. Er bod yr wybodaeth sy’n dod i’r amlwg yn canolbwyntio gan fwyaf ar yr effeithiau uniongyrchol, sy’n fframio’r camau rydym yn parhau i’w cymryd, bydd effeithiau’n ymwneud â’r adferiad tymor hwy hefyd.

2 Mae hyn yn cynnwys effeithiau gwahanol ar bobl, gan gynnwys y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, boed hynny drwy’r effeithiau uniongyrchol ar y bobl sy’n dal y feirws neu sy’n dod i gysylltiad ag ef, sectorau sy’n cael eu cau neu y mae effaith ddifrifol ar eu gweithrediadau, pwysau ar wasanaethau cyhoeddus, ysgolion ar gau, cadw pellter cymdeithasol a’r unigrwydd cymdeithasol sy’n deillio o’r cyfyngiadau symud.

3 Er enghraifft, mae ymchwil byd-eang ar astudiaethau gwyddonol o COVID-19 yn datgelu bod dynion yn fwy tebygol o brofi’n bositif o’r clefyd a marw ohono na menywod, ond nid yw’r rhesymau dros y gwahaniaeth hwn yn glir eto.

4 Mae ymchwil sy’n dod i’r amlwg fel yr ymchwil sydd wedi cael ei gyhoeddi gan y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil ac Archwilio Gofal Dwys a'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid, hefyd wedi sefydlu bod grwpiau lleiafrifoedd ethnig ar draws y DU yn dioddef mwy o niwed o’r feirws na mwyafrif y boblogaeth, a bod effaith wahaniaethol mewn cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

5 Mae’r argyfwng COVID-19 hefyd yn fwy tebygol o effeithio ar fenywod oherwydd eu bod yn fwy tebygol o fod yn gweithio mewn swyddi sy’n talu llai, yn fwy tebygol o fod mewn galwedigaeth y mae'r cyfyngiadau symud

wedi effeithio arni, yn fwy tebygol o fod yn gofalu am ddibynyddion a hefyd yn fwy tebygol o ddioddef trais domestig.

6 Gofynnir i'r henoed a phobl sydd â salwch cronig hunanynysu yn ystod argyfwng y coronafeirws. Ar gyfer y rheini sydd heb neb i'w helpu i gael gafael ar gyflenwadau hollbwysig o fwyd a meddyginiaethau, mae gwirfoddolwyr wedi bod yn achubiaeth iddynt. Mae'r grwpiau hyn o bobl hefyd yn fwy tebygol o ddioddef o unigrwydd a theimlo'n ynysig.

7 Mae'r mesurau a gyflwynwyd i reoli pandemig y coronafeirws hefyd yn debygol o effeithio ar y gweithlu mewn ffordd anghymesur. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi dadansoddi effeithiau 'cau' sectorau yn ystod yr argyfwng ac wedi dod i'r casgliad y bydd yn cael yr effaith fwyaf ar bobl ifanc, ar bobl sydd ar incwm is ac ar fenywod sy'n gweithio. Yng Nghymru, menywod 25 oed ac iau sydd â'r gyfran uchaf o weithwyr mewn diwydiannau sydd wedi gorfod cau, sef bron i 28%, er gwaethaf y ffaith mai dim ond 14% o'r holl weithwyr mae'r grŵp hwnnw'n ei gynrychioli.

8 Gyda'r DU i gyd mewn cyfnod o ddirwasgiad, mae'n debygol y bydd diweithdra yng Nghymru yn codi yn gyflym. Ar sail tystiolaeth o ddirwasgiadau blaenorol, y rheini sydd fwyaf difreintiedig – sef y rheini sydd ar incwm isel, y rheini sydd mewn cyflogaeth ansicr, a'r rheini sydd ag iechyd gwael – fydd yn y perygl mwyaf. Gallai pobl ifanc sy'n ymuno â'r farchnad lafur hefyd wynebu effeithiau hirhoedlog ar eu hincwm, ar eu hiechyd, ar eu llesiant a gallent hyd yn oed fod â disgwyliad oes is.

9 Mae'r holl wybodaeth hon sy'n dod i'r amlwg yn amlygu anghyfartaledd y pandemig hwn. Mae'r feirws yn cael yr effaith fwyaf ar y rheini sydd â'r lleiaf o adnoddau, a bydd yn cael effeithiau gwahanol ar unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig. Bydd yr effaith yn fwy amlwg yng Nghymru oherwydd proffil oedran ein poblogaeth, a lefelau uwch yr amddifadedd yn ein cymunedau.

10 Dyna pam ein bod wedi cymryd nifer o gamau yn ddiymdroi gyda'n cyllideb atodol er mwyn ceisio diogelu'r mwyaf difreintiedig rhag yr effeithiau ariannol gwaethaf. Rydym hefyd yn pwyso ac yn mesur ymchwil sy'n dod i'r fei ar fyrder gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn deall yn well yr effeithiau anghyfartal sy'n cael eu gweld ar draws cymdeithas gan beidio â cholli golwg ar yr effeithiau ehangach ar yr economi ac ar ein hamgylchedd.

## Atodiad 2 – Cysoni rhwng Cyllidebau'r Portffolios yn Nhablau'r Camau Gweithredu a'r rhai yng Nghynnig y Gyllideb

Mae'r Nodyn Esboniadol yn ategu Cynnig y Gyllideb Atodol, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen hon, sy'n nodi'r newidiadau i'r adnoddau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu defnyddio yn 2020-21 a'r arian parod y mae'n ceisio awdurdod i'w dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r tablau yn y nodyn hwn yn defnyddio cyfansymiau rheoli Trysorlys Ei Mawrhydi ac yn cyd-fynd â Thablau'r BEL. Er hynny, mae'r ffigurau yng Nghynnig y Gyllideb Atodol yn cyd-fynd â'r Datganiad o Alldro Adnoddau a ddefnyddir yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru ac sy'n cael ei baratoi ar sail ychydig yn wahanol.

Mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn cynnwys eitemau nad ydynt yn sgorio fel rhan o'r 'Adnoddau sy'n Ofynnol' gan Weinidogion Cymru. Mae'r Atodiad hwn yn darparu cysoniad rhwng y ddau yn ôl pob portffolio.

| | CYLLIDEB ATODOL 2020-21 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | | | | | | | |
| | **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | **Tai a Llywodraeth Leol** | **Yr Economi a Trafnidiaeth** | **Addysg** | **Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol** | **Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig** | **Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu** | **CYFANSWM** |
| Adnoddau | 8,847,607 | 4,497,154 | 1,998,660 | 1,520,623 | 152,670 | 438,915 | 376,457 | **17,832,086** |
| Cyfalaf | 374,488 | 735,590 | 790,726 | 217,516 | 49,213 | 130,992 | 30,246 | **2,328,771** |
| AME Adnoddau | 217,667 | 828,255 | 29,525 | -123,801 | 3,013 | 2,400 | 2,999 | **960,058** |
| AME Cyfalaf | 0 | 0 | 0 | 863,631 | 0 | 0 | 0 | **863,631** |
| **CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR** | **9,439,762** | **6,060,999** | **2,818,911** | **2,477,969** | **204,896** | **572,307** | **409,702** | **21,984,546** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | | | | | | | | |
| Defnyddio Adnoddau – Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | -230 | -200 | | -305 | -7,281 | -12,400 | | **-20,416** |
| Benthyca â Chymorth | | -88,800 | | | | | | **-88,800** |
| Costau Casglu Derbyniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol | -906 | | | | | | | **-906** |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sy'n Daladwy (a'r Costau Casglu) | | -809,172 | | | | | | **-809,172** |
| Taliadau Llog ar Fenthyciadau | | | | | | | -2,474 | **-2,474** |
| Menter Cyllid Preifat | | | -8,982 | | | | | **-8,982** |
| **ADNODDAU Y GWNAED CAIS AMDANYNT** | **9,438,626** | **5,162,827** | **2,809,929** | **2,477,664** | **197,615** | **559,907** | **407,228** | **21,053,796** |

## Atodiad 3 – Geirfa

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu** | O fewn pob Maes Rhaglen Wariant, dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu. |
| **Cwmpasoedd** | Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wario adnoddau arnynt. Mae Disgrifiadau o'r Cwmpasoedd a'r terfynau o ran adnoddau wedi'u cynnwys yng Nghynigion y Gyllideb Blynyddol a'r Gyllideb Atodol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r Prif Grwpiau Gwariant (MEG). |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlfwyddyn yn yr un ffordd â'r Terfyn Gwariant Adrannol (DEL), ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac Adroddiad Rhag-gyllidebol Trysorlys Ei Mawrhydi. Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME), fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr neu'n ymateb i'r galw; er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr. |
| **Cynnig y Gyllideb** | Y dull a ddefnyddir gan Senedd Cymru i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig ac i dynnu arian parod hyd at derfyn penodol o Gronfa Gyfunol Cymru. |
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)** | O fewn pob Cam Gweithredu, dyrennir cyllidebau i nifer o is-grwpiau gwariant a elwir yn Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL). Mae tablau sy'n dangos cyllidebau ar lefel y BEL ar gael yn: https://llyw.cymru/cyllidebau-llywodraeth-cymru |
| **Cyfalaf** | Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae gan gyllidebau Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) a Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) Llywodraeth Cymru derfynau gwahanol ar gyfer cyfalaf a refeniw. |

| | |
|---|---|
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)** | Terfyn y gyllideb amlflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi mewn Adolygiadau o Wariant. |
| **Dibrisiant** | Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei fod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru ond eitem DEL adnoddau anghyllidol ydyw. |
| **Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru** | Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i Gronfa Gyfunol Cymru ei dalu'n uniongyrchol ac felly nad yw'n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru nac unrhyw gorff arall. Ymhlith y taliadau a godir yn uniongyrchol mae taliad cydnabyddiaeth y Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol. |
| **Trafodiadau Ariannol** | Dim ond at ddibenion benthyciadau ac ecwiti y gellir defnyddio trafodiadau ariannol. Hefyd mae'n rhaid ad-dalu cyfran o'r cyllid i'r Trysorlys EM. |
| **DEL Adnoddau Cyllidol** (y cyfeirir ato weithiau fel refeniw) | Mae Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Adnoddau Cyllidol yn sgorio'r rhan fwyaf o wariant cyfredol yr adran. Cofnodir gwariant ar sail croniadau. Mae'n cynnwys gwariant ar gyflogau, caffael cyfredol, grantiau cyfredol a chymorthdaliadau. |
| **Prif Grŵp Gwariant (MEG)** | Caiff Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant (MEG). Ceir 7 MEG ar hyn o bryd: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Tai a Llywodraeth Leol; Yr Economi a Thrafnidiaeth; Addysg; Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol; Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. |
| **DEL Adnoddau Anghyllidol** (y cyfeirir ato weithiau fel refeniw 'nad ydyw'n arian parod') | Mae'r gyllideb Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Adnoddau Anghyllidol yn sgorio gwariant cyfredol yr adran mewn perthynas â dibrisiant ac amhariadau benthyciadau i fyfyrwyr. Mae DEL Adnoddau Anghyllidol wedi'i glustnodi ac ni ellir ei ddefnyddio i gyllido gwariant DEL adnoddau cyllidol. |
| **Derbyniadau** | Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel ffigurau negyddol. |

| | |
|---|---|
| **Cyllidebu adnoddau** | Mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllidebu adnoddau yn cynnwys ffi am ddibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd. |
| **Adolygiad o Wariant** | O bryd i'w gilydd mae Trysorlys EM yn adolygu gwariant pob un o Adrannau Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae cyllidebau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy gyfrwng Fformiwla Barnett, sef y dull a ddefnyddir i gyfrifo'r gwariant cyhoeddus a ddyrennir i Gymru i adlewyrchu'r newidiadau yn lefelau'r gwariant a ddyrennir i wasanaethau cyhoeddus yn Lloegr |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | Cyfanswm Rheoli gan Drysorlys Ei Mawrhydi yw hwn sy'n cynnwys cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol ynghyd â Gwariant a Reolir yn Flynyddol. |
| **Cronfa Gyfunol Cymru** | Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn unol â phleidlais Senedd y DU. |
| **CNLC** | Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. |